







**PARTNERIAETH
NATUR
GWYNEDD**



**CYNLLUN GWEITHREDU
ADFER NATUR**

MEHEFIN 2026



TABL CYNNWYS

RHAGAIR	1
Rydym mewn argyfwng Natur	2
Beth yw Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwynedd?	3
Partneriaeth Natur Gwynedd	4
Pam mae angen Cynllun Gweithredu Adfer Natur?	6
Sut mae'r cynllun yn gweithio?	8
 RHAN 1 - GOSOD Y CYDESTUN	10
Bioamrywiaeth, ecosystemau a llesiant	12
Cydnerthedd ac aflonyddwch ecosystem	16
Effaith ein gweithgareddau	18
Deall cydnerthedd ecosystem	19
Adnabod pwysau ar fioamrywiaeth ac ecosystemau Gwynedd	20
Natur yng Ngwynedd ac AHNE Llŷn	24
Canolbwyntio ar Wynedd	26
Canolbwyntio ar AHNE Llŷn	32
Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau	36
Lle a beth ddylem ni ei flaenoriaethu?	38
Cyfle i natur adfer yng Ngwynedd ac AHNE Llŷn	40
Adeiladu ar waith blaenorol i symud ymlaen	42
Datblygu a defnyddio'r CGAN hwn	44

TABL CYNNWYS

RHAN 2 - 'EIN MILLTIR SGWÂR'	46
Darganfod Natur Gwynedd	48
Cofnodi	52
Gwarchod	55
Creu	56
Rhannu	57
 RHAN 3 - CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER PARTNERIAETH NATUR GWYNEDD	58
Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru	60
Heriau a chyfleoedd ar gyfer adfer natur yng Ngwynedd, gan gynnwys AHNE Llŷn	62
Ein hymateb i heriau adfer natur yng Ngwynedd	63
Astudiaeth Achos 1 - ACA Pen Llŷn a'r Sarnau – Adfer a gwarchod morwellt	64
Astudiaeth Achos 2 - Cae chwarae Bodawen, Porthmadog	66
Astudiaeth Achos 3 - Ffrindiau AHNE Llŷn	68
Astudiaeth Achos 4 - Dolydd Llŷn	70
Ein rhanddeiliaid a grymuso cymunedau	72
Ymateb i heriau	73
Ymateb i gyfleoedd	74
Cymryd camau i gefnogi adferiad natur yng Ngwynedd – ein nodau lleol	76
Adrodd ar ein cynnydd	81

TERMINOLEG

PARTNERIAETH NATUR GWYNEDD

Y bartneriaeth sydd yn arwain ar y gwaith amgylcheddol yng Ngwynedd (Cyngor Gwynedd yn gweinyddu'r bartneriaeth)

CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR (CGAN)

Cynllun i ddatblygu trafodaeth ac adnabod cyfleon y gellir ei gweithredu i wella bioamrywiaeth ac ecosystemau.

GWYDNWCH

Yn cyfeirio at sefydlogrwydd ecosystem a'i gallu i wrthsefyll ymyrraeth neu ddifrod ac ailsefydlu ei hun.

AMCCA

Dull i fesur gwydnwch ecosystem. Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd, Addasrwydd

RHAGAIR

Mae'r argyfwng Natur ac Amgylcheddol yn rhywbeth da ni yn clywed amdano yn barhaus. Mae enghreifftiau o dywydd mwy eithafol... yr hafau poeth a sych, y gaeafau mwyn a gwlyb yr ydym yn ei brofi yn fwy rheolaidd erbyn hyn yn dangos bod ein byd yn araf gynhesu gan gael effaith ar ein ffordd o fyw.

Mae prydferthwch naturiol eithriadol yr ardal yr ydym yn byw ynddi yn medru cyfoethogi ein bywydau yn gorfforol ac yn feddyliol. Ar yr un pryd rydym angen sylweddoli bod dyletswydd arnom i gyd i warchod a gwerthfawrogi amgylchedd arbennig Gwynedd a cheisio atal a gwrthdroi y dirywiad sydd yn mynd yn ei flaen o'n cwnpas.

Mae'n bleser gweld bod nifer fawr o asiantaethau wedi dod at ei gilydd i ddatblygu y cynllun yma sydd yn adnabod ffyrdd gwahanol o wella ac adfer byd natur yng Ngwynedd drwy roi blaenoriaeth i fioamrywiaeth wrth ymgymryd â phenderfyniadau sydd yn ymwneud â'r economi, yr amgylchedd a'r gymuned ar hyd a lled y sir.

Mae angen i ni fel unigolion weithio ar raddfa leol er mwyn gwarchod cynefinoedd 'ein milltir sgwâr' ond hefyd bod yn hapus i gydweithio efo grwpiau a sefydliadau sydd yn gweithredu ar draws cymunedau a thirweddau Gwynedd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Wrth ymrwymo i'r gwerthoedd yma byddwn yn medru meithrin a sefydlu'r gwydnwch angenrheidiol ar draws y sir i ymateb i'r heriau amgylcheddol a naturiol da ni yn ei wynebu.

Cynghorydd Craig ap Iago – Deilydd Portffolio Amgylchedd, Cyngor Gwynedd

Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) hwn ar gyfer Gwynedd fel diffinnir gan yr awdurdod unedol. Mae'n cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn, ardal ddynodedig o harddwch arbennig ac un o ddim ond pump yng Nghymru gyfan. Byddwn yn cyfeirio at yr ardal hon fel 'AHNE Llŷn' o hyn ymlaen.



RYDYM MEWN ARGYFWNG NATUR



I gydnabod yr argyfwng ecolegol, cyhoeddodd y Senedd Argyfwng Natur Cenedlaethol yn 2021 a dilynodd Cyngor Gwynedd yn gyflym iawn wrth ddatgan bod bioamrywiaeth a chynefinoedd Gwynedd hefyd yn wynebu'r un heriau.

Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd (2015) a diweddarwyd (2020) yn strategaeth fioamrywiaeth genedlaethol sydd yn mynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth cydnabyddiedig ar lefel genedlaethol. Mae'r cynllun wedi adnabod chwe amcan allweddol a phum thema gweithredu gyffredinol i gyfeirio camau adfer natur.

I fynd i'r afael â'r argyfwng byd natur yng Ngwynedd, mae Partneriaeth Natur Leol Gwynedd wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) i fynd i'r afael yn benodol â'r argyfwng natur yma yng Ngwynedd.

Mae'n nodi blaenoriaethau lleol ar ffurf 'themâu gweithredu' (sy'n cyd-fynd â chwe nod CGAN Cymru) i fynd i'r afael â dirywiad natur ac adfer natur Gwynedd. Bydd partneriaid y Bartneriaeth Natur Leol (PNL) yn defnyddio'r camau gweithredu a'r nodau hyn i arwain eu gwaith yn y dyfodol yng Ngwynedd, a bydd eu cynnydd yn cael ei gofnodi'n flynyddol ar y cyd â Cofnod - Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol Gogledd Cymru.

Bydd y ddogfen hon yn gweithredu fel mecanwaith i arwain ac ysbrydoli pawb yng Ngwynedd i wrthdroi tueddiadau bioamrywiaeth blaenorol, p'un a ydych chi'n gweithio ym maes cadwraeth natur ai peidio.

BETH YW CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR GWYNEDD?



Mae ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur, y byddwn yn cyfeirio ato fel y CGAN o hyn ymlaen, yn strategaeth a chynllun wedi'i llunio tuag at adfer natur Gwynedd. Mae ein CGAN yn cydnabod:

- y cyfraniadau, yr adborth a'r ymatebion gwerthfawr a gafwyd gan wahanol randdeiliaid.
- Polisiâu a chynlluniau Cenedlaethol a Rhanbarthol ynghyd â data lleol ar gynefinoedd, rhywogaethau a gwytnwch ecosystemau yng Ngwynedd.
- Dylid ystyried y CGAN a amlinellir yn y ddogfen hon yn offeryn cydweithredol i ddarparu ar gyfer cymunedau lleol, cyrff statudol, a sefydliadau eraill a chydweithio â nhw, i helpu i gynyddu deialog i lunio a gwireddu camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth ac ecosystemau.
- Gwybodaeth ranbarthol a chydnabyddiaeth o flaenoriaethau a nodir yn Natganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru / Datganiad Morol CNC mae wedi'i ymgorffori yng ngwaith y Bartneriaeth Natur a'i chanlyniadau prosiect. Mae'r themâu yn Natganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru CNC yn cefnogi'r camau gweithredu a amlinellir yn y ddogfen hon ac yn ffurfio'r sail ar gyfer camau gweithredu cadarnhaol wrth symud ymlaen.
- Llywodraethiant Cenedlaethol - Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 a Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026.

PARTNERIAETH NATUR GWYNEDD

Sefydlwyd Partneriaeth Natur Gwynedd yn 2000 fel grŵp o gynrychiolwyr o awdurdodau cyhoeddus perthnasol, sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau trydydd sector, tirfeddianwyr ac unigolion sy'n ymwneud â chadwraeth natur yng Ngwynedd.

AELODAETH

Mae'r aelodaeth yn cynnwys cyrff statudol a gwirfoddol, sefydliadau addysg, elusennau, undebau amaethyddol ac unigolion sydd yn angerddol dros yr amgylchedd yng Ngwynedd.

PA ARDAL SYDD WEDI EI CHYNNWYS YN Y CGAN?

Mae Gwynedd yn ardal o olygfeydd godidog, o'i chopaon uchaf i'w llynnoedd mwyaf, wedi'i drwytho mewn treftadaeth a diwylliant ac yn le gwych i fyw. Wedi'i leoli yng nghornel ogledd orllewinol tir mawr Cymru, ac mae'n gartref i gynefinoedd naturiol amrywiol ac unigryw.

Mae'r ardal yn cynnwys tirweddau dynodedig arwyddocaol, gan gynnwys AHNE a Pharc Cenedlaethol. Mae'r CGAN hwn yn cwmpasu ardal Gwynedd y **tu allan** i Barc Cenedlaethol Eryri ac yn cynnwys AHNE Llŷn. Mae hefyd yn ymestyn i'r môr i gynnwys ardaloedd pwysig ar gyfer bywyd gwyllt morol ac arfordirol y mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol ar y cyd am eu rheoli.

I BWY MAE HWN?

Dogfen waith yw'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) hwn i unrhyw un sydd â diddordeb mewn adfer natur Gwynedd ac AHNE Llŷn. Gellir ei ddefnyddio a chyfeirio ato gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol. Nod y ddogfen hon yw mabwysiadu methodoleg fwy cydweithredol a strategol wrth gadw, gwella a gwarchod ein tirwedd. Ac wrth wneud y mwyaf o sgiliau a gwybodaeth partneriaid a rhanddeiliaid, gellir sicrhau bod cyfle i bawb sy'n gysylltiedig gyfrannu at dirlun sy'n fwy, iachach a mwy cysylltiedig yng Ngwynedd.

Nod y CGAN yw parhau i ymgysylltu â'r ystod eang o sefydliadau partner a gynrychiolir ym Mhartneriaeth Natur Gwynedd, o drigolion unigol a grwpiau cymunedol i gynghorau sir a chymuned, sefydliadau gwirfoddol, a busnesau sy'n gweithredu yng Ngwynedd, er mwyn ysbrydoli prosiectau ac arwain ymdrechion cadwraeth i wireddu canlyniadau amgylcheddol a lles cadarnhaol.

GWYNEDD

Mae Gwynedd yng nghornel ogledd-orllewinol tir mawr Cymru ac mae'n cwmpasu tirweddau naturiol amrywiol ac unigryw, o'i chopaon uchaf i'w llynnoedd mwyaf. Mae'r ardal yn cynnwys tirweddau dynodedig sylweddol, gan gynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a Pharc Cenedlaethol.

Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) hwn yn cwmpasu ardal Gwynedd y tu allan i Eryri, ond mae'n cynnwys AHNE Llŷn. Mae hefyd yn ymestyn i'r môr i gynnwys ardaloedd pwysig ar gyfer bywyd gwyllt morol ac arfordirol y mae Cyngor Gwynedd yn gyd gyfrifol am ei reoli.



PAM MAE ANGEN CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR ARNOM?

Yn seiliedig ar ddull cydweithredol, y CGAN hwn yw ein hymateb lleol/ rhanbarthol i'r alwad fyd-eang am weithredu ar adfer natur.

Mae'r CGAN hwn ar gyfer Gwynedd ac AHNE Llŷn yn ddogfen statudol sy'n disodli 'Natur Gwynedd' - y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol gwreiddiol ar gyfer Gwynedd. Fe'i datblygwyd hefyd ar y cyd ac i ategu'r Cynllun Rheoli sydd eisoes ar waith ar gyfer AHNE Llŷn.

Mae'r bartneriaeth sydd wedi gweithio ar greu'r CGAN wedi sicrhau ei fod yn cyd-fynd â chynlluniau Cyngor Gwynedd a deddfwriaeth, polisiau ac ymrwymadau Llywodraeth Cymru i dargedau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'n atgyfnerthu'r canlyniadau dymunol ar gyfer adfer natur mewn polisi a deddfwriaeth ac yn amlinellu'r camau y gellir eu cymryd i gyflawni'r nodau hyn yng Ngwynedd ac AHNE Llŷn.

Gellir dod o hyd i wybodaeth dechnegol berthnasol am ddeddfwriaeth, polisi a chynlluniau yn rhan 4 o'r CGAN.


MAE NATUR YN DIRYWIO

Bu'r cyfnod o 1750 i 1900 yn un o newid mawr yn y Deyrnas Unedig. Effeithiodd datblygiadau technolegol enfawr ar bob agwedd o fywyd bob dydd, gan arwain hefyd at newid dramatig yn ein tirweddau. Oherwydd y colledion cynharach hyn, daeth rhai o'n tirweddau a'n cynefinoedd mwyaf gwerthfawr yn fwy cysylltiedig ag arferion amaethyddol a rheoli tir traddodiadol, er enghraifft dolydd gwair traddodiadol a glaswelltiroedd llawn blodau gwyllt. Yn yr 20fed ganrif, parhaodd colledion pellach o'r cynefinoedd pwysig hyn oherwydd newidiadau yn yr arferion traddodiadol hynny, darnio cynefinoedd a chynnydd mewn trefoli. Maent i gyd wedi cyfrannu at gyflymu cyfraddau dirywiad natur.

Mae ffactorau fel cynaeafu adnoddau, prosiectau trefoli mawr, llygredd ac arferion amaethyddol modern ar raddfa fawr i gyd wedi cyfrannu at ddirywiad byd-eang mewn natur. Mae arferion anghynaliadwy ar y môr fel gorbysgota a llygredd wedi arwain at ddirywiad tebyg mewn cynefinoedd a rhywogaethau.

Mae'r un peth yn wir yng Ngwynedd lle mae pwysau allweddol ar ein tirwedd fel rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefydau, newidiadau mewn defnydd tir, camfanteisio ar adnoddau a llygredd wedi arwain at ddirywiad mewn natur. Ar lefel leol a byd-eang, mae newid hinsawdd hefyd yn cael effaith eang a chynyddol aflonyddgar ar ecosystemau tir a môr.

Am ragor o wybodaeth am Cyflwr Byd Natur yng Nghymru, gweler Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (ASAN) ar gyfer Cymru 2020



SUT MAE’R CYNLLUN YN GWEITHIO?



MAE 4 RHAN I’R CGAN HWN:

RHAN 1 GOSODY CYDESTUN

Mae **Rhan 1** yn rhoi trosolwg defnyddiol o’r sefyllfa bresennol yng Ngwynedd ac yn egluro pwysigrwydd cymryd camau gweithredu dros fyd natur. Dyma lle y byddwch chi’n dod o hyd i’r fframwaith ar gyfer y cynllun gweithredu adfer byd natur.

RHAN 2 EIN MILLTIR SGWÂR

Mae **Rhan 2** yn ein herio ac yn ein cefnogi ni i gyd ar yr hyn y gallwn ni ei wneud i helpu byd natur i adfer – mae’r adran hon yn darparu syniadau ac arweiniad i drigolion Gwynedd sy’n dymuno helpu byd natur yn eu “milltir sgwâr”. Mae’n dod ag adnoddau ynghyd mewn un lle cyfleus i’w gwneud hi’n hawdd i chi fel unigolion, grwpiau neu sefydliadau.

RHAN 3 MANYLION Y CYNLLUN GWEITHREDU

Mae **Rhan 3** yn amlinellu camau gweithredu a blaenoriaethau lleol y cytunwyd arnyn nhw gan y ‘Bartneriaeth Natur Leol’ yng Ngwynedd, a elwir yn ‘Bartneriaeth Natur Gwynedd’ neu ‘PNG’, i gyflawni adferiad natur.

Mae’n mynd ymlaen i fynd i’r afael ag amcanion ‘Cynllun Gweithredu Adfer Natur’ Cymru a’u cefnogi drwy nodi themâu gwaith allweddol ac ystyried yr heriau a’r cyfleoedd wrth eu cyflawni. Yn hollbwysig, mae’n adlewyrchu ac yn adeiladu ar brosiectau a chamau gweithredu’r gorffennol a’r presennol a roddwyd ar waith gan randdeiliaid ledled Gwynedd i lywio gwaith y bartneriaeth yn y dyfodol. Yn olaf, mae’n cynnwys astudiaethau achos ysbrydoledig o brosiectau cymunedol y gorffennol a’r rhai sy’n parhau ledled Gwynedd ac AHNE Llŷn i gefnogi ein dysgu parhaus o brofiadau gwerthfawr o’r gorffennol.

RHAN 4 ATODIADAU DEFNYDDIOL

Rhan 4 yw lle y byddwch yn dod o hyd i gyfeiriadau a gwybodaeth dechnegol am ddeddfwriaeth a pholisi, yn ogystal â’r rhestr o rywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth ar gyfer Gwynedd a gymerwyd o’r cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol ‘Natur Gwynedd’ blaenorol.


RHAN 1

GOSOD Y CYDESTUN

Mae'r rhan hon yn amlinellu pam mae angen CGAN ar gyfer Gwynedd ac AHNE Llŷn, a sut mae'n hanfodol cymryd camau i helpu byd natur nawr. Mae'n darparu'r fframwaith a ddefnyddir i greu'r cynllun gweithredu a gyflwynir yn rhan 3.

Fe welwch hefyd ddiffiniad arfaethedig o "byd natur" a ddefnyddir i greu'r CGAN, ac mae'n egluro ei bwysigrwydd, yn cydnabod lle y gallwn ddod o hyd iddo, ac yn crynhoi'r pwysau allweddol sy'n wynebu byd natur a'u prif gydrannau.

Yn y rhan hon byddwch yn dysgu beth yw uchelgais craidd y cynllun gweithredu, gan ei fod yn amlinellu'r mecanweithiau a fydd yn cael eu gweithredu i'w gyflawni yng Ngwynedd ac AHNE Llŷn ac yn cydnabod cefndir y CGAN mewn perthynas â chynlluniau gweithredu bioamrywiaeth blaenorol a'r cynllun rheoli ar gyfer AHNE Llŷn.



BETH YW EIN DIFFINIAD 'BYD NATUR'?

Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur (a gyfeirir ato fel "NRAP" yn aml) yn cymryd golwg eang o fyd natur.

Mae byd natur yn cyfeirio at nodweddion cynhenid yr amgylcheddau ffisegol a byw o'n cwmpas yng Ngwynedd. Mae'n cwmpasu popeth byw o ficrobau a ffyngau i blanhigion ac anifeiliaid, ac mae hefyd yn cynnwys amgylcheddau ffisegol fel moroedd, afonydd, mynyddoedd, y tywydd a thymhorau.

Yn y diffiniad hwn, mae 'byd natur' yn eithrio bodau dynol a chysyniadau dan ddylanwad dyn, ac yn canolbwyntio ar fywyd, amgylcheddau a systemau nad ydyn nhw'n cael eu rheoli na'u creu'n uniongyrchol gan weithgaredd dyn.

Gall gweithgaredd dynol effeithio'n anuniongyrchol ar gydrannau allweddol byd natur fel bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. Mae tystiolaeth helaeth ar y pwysau a nodwyd ar fyd natur Cymru wedi'i hadrodd yn yr 'Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol' (a gyfeirir ato fel 'SoNaRR' yn am) ar gyfer Cymru, a luniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), corff a noddir gan Lywodraeth Cymru sydd â'r dasg o ddiogelu a gwella'r amgylchedd.

Crynhoir y pwysau allweddol a nodwyd yng Ngwynedd mewn adran ddiweddarach o'r ddogfen hon.

Mae'n bwysig nodi, er gwaethaf mynd i'r afael â'r materion hyn, fod rhagolygon cyffredinol CGAN Gwynedd ac AHNE Llŷn yn parhau i fod yn gadarnhaol. Y ffocws yw'r camau y gellir eu cymryd i weithio'n gadarnhaol dros fyd natur, gan nodi meysydd ar gyfer ymdrechion cadwraeth wedi'u targedu a fydd ar y cyd yn gwella cyflwr byd natur.



BIOAMRYWIAETH, ECOSYSTEMAU A LLESIANT

Mae ansawdd ein bywyd yn gysylltiedig â byd natur - mae ein lles fel bodau dynol yn dibynnu ar fioamrywiaeth wydn sy'n ffynnu ac ecosystemau iach yn gweithio'n dda.

Bioamrywiaeth, talfyriad am “amrywiaeth fiolegol”, yw sylfaen ecosystemau iach sy'n gweithredu'n dda, sydd, yn eu tro, yn creu amgylcheddau cefnogol i fywyd ffynnu. Mae bioamrywiaeth yn cwmpasu amrywiaeth bywyd ar y ddaear ac yn adlewyrchu amrywiaeth a helaethrwydd organebau byw, o facteria microsgopig i goed derw tal a hynafol a phopeth rhyngddyn nhw.

Ar raddfa ficro, mae bioamrywiaeth yn diffinio'r amrywiaeth enetig mewn unigolion. Mae hefyd yn cydnabod amrywiaeth rhywogaethau, ac ym mhen mwyaf y raddfa mae'n cydnabod y gwahaniaethau rhwng biomau cyfan ac yn disgrifio amrywiaeth bywyd ledled cyfandiroedd.

Mae **'Ecosystemau'** yn ehangu ar y cysyniad o fioamrywiaeth drwy ystyried y cysylltiadau a'r trosglwyddiadau ynni rhwng organebau byw, yn ogystal â dylanwad yr amgylchedd ffisegol, gan gynnwys hinsawdd, ansawdd dŵr, ac argaeledd maetholion. Mae ecosystemau'n cwmpasu'r perthnasoedd cymhleth sy'n cynnal bywyd ac yn sicrhau gweithrediad systemau naturiol.

Mae llawer o ecosystemau'n darparu gwasanaethau gwerthfawr sydd o fudd i ni fel pobl. Mae nhw'n cyflenwi adnoddau hanfodol fel bwyd, diod a deunyddiau adeiladu, yn rheoleiddio ein hamgylchedd drwy gynhyrchu aer glân a dŵr croyw, ac yn cynnal gwerthoedd diwylliannol, amwynder ac addysgol.

Mae'r gwasanaethau hyn yn cyfrannu at ein lles cyffredinol ni fel pobl a chymunedau.

Mae coetir yn enghraifft gyffredin o fath o ecosystem naturiol sydd i'w chael yng Ngwynedd. Mae'r ddelwedd isod yn tynnu sylw at y nwyddau a'r manteision yr ydym ni fel pobl yn eu cael o goetiroedd. Y term a roddir i'r rhain ar y cyd yw **'Gwasanaethau Ecosystem'**.

BIOAMRYWIAETH

Mae “bioamrywiaeth” yn cwmpasu'r amrywiaeth o fywyd ar y Ddaear, gan adlewyrchu amrywiaeth a nifer yr organebau byw, o facteria microsgopig i goed derw anferth a phopeth rhyngddynt.


Ar raddfeydd bach, mae bioamrywiaeth yn diffinio'r amrywioldeb genetig mewn unigolion. Ar y raddfa fwyaf, mae'n ymdrin â'r gwahaniaethau rhwng biomau cyfan ac yn disgrifio amrywiaeth bywyd ar draws cyfandiroedd.



ECOSYSTEMAU

Mae ecosystemau'n ehangu'r cysyniad o fioamrywiaeth drwy ystyried y cysylltiadau o drosglwyddo egni rhwng organebau byw, yn ogystal â dylanwad yr amgylchedd ffisegol, gan gynnwys yr hinsawdd, ansawdd dŵr ac argaeledd maetholion.

Mae ecosystemau'n cwmpasu'r perthnasoedd cymhleth sy'n cynnal bywyd ac sy'n sicrhau gweithrediad systemau naturiol.



- 1

Mae planhigion yn tyfu gan ddefnyddio egni o olau'r haul, maetholion yn y pridd, a dŵr o'r glaw.
- 2

Mae pryfed, megis lindys, yn cael egni a maeth drwy fwyta dail y planhigion.
- 3

Mae mamaliaid bach, megis llygod, yn cael egni a maeth drwy fwyta ffrwythau a chnau.
- 4

Mae ysglyfaethwyr, megis tylluanod, yn cael egni a maeth drwy fwyta llygod.

- 5

Mae anifeiliaid yn marw ac yn cynhyrchu gwastraff organig.
- 6

Mae ffwng, bacteria ac organebau microbaidd eraill yn dadelfennu'r gwastraff organig.
- 7

Mae'r maetholion anorganig sy'n cael eu rhyddhau i'r pridd yn mynd ymlaen i gynnal twf planhigion.

GWASANAETHAU ECOSYSTEM

Mae llawer o ecosystemau yn darparu gwasanaethau gwerthfawr sydd o fudd i bobl. Maent yn cyflenwi adnoddau hanfodol megis bwyd a deunyddiau adeiladu, yn rheoleiddio ein hamgylchedd drwy gynhyrchu awyr iach a dŵr croyw, ac yn cynnal gwerthoedd diwylliannol, amwynder ac addysgol. Mae'r gwasanaethau yma yn cyfrannu at les cyffredinol unigolion a chymunedau.

GWASANAETH ECOSYSTEM	NWYDDAU A BUDDION COETIROEDD
CYNHYRCHIAN Pren Ffrwythau a Chnau Anifeiliaid Hela	
RHEOLEIDDIO Dŵr Glân Dal Carbon Lleihau Sŵn Amddiffiad rhag llifogydd	
DIWYLLIANNOL Cyfleusterau Hamdden Addysg Celf a Ffotograffiaeth	
CEFNOGAETH Maetholion Cylchrediad Dŵr Ffuriant Pridd Cylchrediad Carbon	

CYDNERTHEDD AC AFLONYDDWCH ECOSYSTEM

Cydnerthedd ecosystem yw gallu ecosystem i ymdopi ag aflonyddwch ac yna adfer ei hun i gyflwr sefydlog, cynhyrchiol lle gall barhau i hwyluso amgylchedd iach a chefnogol i fywyd ffynnu - gan gynnwys lles pobl.

Mae bioamrywiaeth yn chwarae rhan hanfodol yng nghydnerthedd ecosystem. Po fwyaf yw amrywiaeth a helaethrwydd rhywogaethau, y mwyaf o organebau sy'n bodoli i gyflawni swyddogaethau hanfodol mewn ecosystem. Mae PNG yn cydnabod pwysigrwydd cynnal a gwella ecosystemau cydnerth a llewyrchus o fewn ein tirwedd ynghyd â'u cyfraniadau at gysylltedd a graddfa cynefinoedd yn ogystal â sefydlogrwydd amodau abiotig (anfyw).

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhestru'r nodweddion sy'n cyfrannu at gydnerthedd ecosystem. Mae'n dibynnu ar allu ecosystem i addasu, gwrthsefyll ac adfer ar ôl aflonyddwch. Mae'r gallu hwn yn cael ei ddylanwadu gan ffactorau megis amrywiaeth, graddfa ac ehangder yr ecosystem, ei chyflwr, ei haddasrwydd a'i chysylltedd â systemau tebyg.

AMCCA

AMRYWIAETH / MAINT / CYFLWR / CYSYLLTEDD / ADDASRWYDD

Mae cydnerthedd yn dibynnu ar allu ecosystem i addasu, gwrthsefyll ac adfer ar ôl aflonyddwch. Mae'r gallu hwn yn cael ei ddylanwadu gan ffactorau megis bioamrywiaeth, maint a chyflwr yr ecosystem a'i chysylltedd â systemau tebyg.



AMRYWIAETH



MAINT



CYSYLLTEDD



CYFLWR

EFFAITH EIN GWEITHGAREDDAU

Gall gweithgareddau dynol leihau cydnerthed ecosystem trwy aflonyddwch. Yn y cyd-destun hwn, gallai aflonyddwch ddigwydd wrth leihau cysylltedd, cyflwr neu maint ecosystemau trwy addasu neu glirio tir ar gyfer datblygiad dynol fel dulliau ffermio modern, gweithgareddau hamdden ac adeiladu.

Gall aflonyddwch fel yr uchod arwain at newidiadau i amodau cemegol a ffisegol o fewn ecosystemau presennol fel colli maetholion mewn dŵr ffo, gan arwain dros amser at golli cynefinoedd ac amgylchedd. O ganlyniad, dros gyfnod hir, fe all y gweithredoedd negyddol hyn ar ein hecosystemau presennol gyfrannu at ffactorau sy'n gysylltiedig â phryderon amgylcheddol ehangach, fel newid hinsawdd.

Gall dirywiad bioamrywiaeth mwy uniongyrchol gael ei achosi trwy hela a chynaeafu rhywogaethau, a thrwy reoli neu ddileu rheolaeth trwy arferion ffermio monocwlwm modern a'r defnydd o bladdwyr.

Gall dirywiad bioamrywiaeth hefyd fod yn anuniongyrchol. Gan fod bioamrywiaeth yn rhan annatod o ecosystem, gall y mathau o aflonyddwch ecosystem a nodwyd hyd yma hefyd gyfrannu at ddirywiad bioamrywiaeth.

Mae gweithgareddau dynol eisoes wedi lleihau ac yn parhau i brofi cydnerthed ecosystemau ledled Gwynedd. Os caiff cydnerthed ecosystem ei leihau'n ormodol, gall ecosystemau ei chael hi'n anodd addasu, gwrthsefyll ac adfer o aflonyddwch dynol a naturiol pellach. Mae ecosystemau â chydnerthed isel mewn perygl o ddisgyn i gyflyrau llai cynhyrchiol, gan beryglu eu gallu i ddarparu gwasanaethau ecosystem hanfodol sydd eu hangen arnom i gyd i ffynnu.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi datblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso cydnerthed ecosystemau yn seiliedig ar bum priodoledd a phriodweddau a bennir yn Neddf Amgylchedd (Cymru). Cyfeirir at hyn fel AMCCA: Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd ac Addasrwydd o gydnerthed ecosystemau.



DEALL CYDNERTHEDD ECOSYSTEM

I ddeall y cysyniad o gydnerthed ecosystem, gadewch i ni ystyried y ffordd rydym yn byw ein bywydau.

Dychmygwch fod bioamrywiaeth yn cael ei chynrychioli gan weithwyr ar brosiect adeiladu tai, sy'n symboleiddio ecosystem. Mae gan bob gweithiwr rôl benodol i'w chyflawni ar y safle, gyda gwahanol fedrau a chrefftau fel pensaer, briciwr, gweithredwyr peiriannau... Po leiaf o weithwyr sydd ar y safle, a'r lleiaf o fathau o grefftwyr sydd ar gael, y mwyaf heriol y daw i gwblhau'r prosiect.

Os caiff gormod o weithwyr eu tynnu o'r prosiect, gellir gohirio'r gwaith cyfan neu ni chaiff ei orffen byth. Mae hyn yn cyfateb i ecosystemau na allan nhw weithredu mwyach pan fydd colled sylweddol o fioamrywiaeth yn digwydd.

Er mwyn i'r gweithwyr gyflawni eu swyddi'n effeithiol, mae angen seilwaith cysylltedd arnyn nhw i deithio o'u cartrefi i safle'r prosiect, fel ffyrdd a llwybrau troed. Gellir cymharu hyn â rhwydweithiau byd natur fel ymylon blodau gwyllt, gwrychoedd, a nentydd sy'n cysylltu ecosystemau â'i gilydd.

Mae angen amodau byw cyfforddus arnyn nhw hefyd sy'n ddigon mawr, sy'n cynnal tymereddau sefydlog heb wres neu oerfel eithafol, ac sy'n eu cyflenwi â dŵr a bwyd glân. Mae'r enghreifftiau hyn yn adlewyrchu ffactorau eraill cydnerthed ecosystem megis maint a graddfa, a sefydlogrwydd a safon yr amodau ynddyn nhw.

Os yw'r ffactorau hyn yn cael eu peryglu (megis ffyrdd yn cael eu cau'n barhaol neu bobl yn mynd yn sâl oherwydd dŵr wedi ei heintio), efallai na fydd y gweithwyr yn gallu cyrraedd safle'r prosiect a chyflawni eu gwaith. Yn yr un modd, mae ecosystemau'n cael trafferth gweithredu pan fydd gormod o aflonyddwch yn digwydd i agweddau gwahanol o gydnerthed ecosystem.





ADNABOD PWYSAU AR FIOAMRYWIAETH AC ECOSYSTEMAU GWYNEDD

Mae ecosystemau yng Ngwynedd, yng Nghymru, ac o amgylch y byd yn wynebu pwysau sylweddol a all eu gwrthio tuag at gyflyrau llai cynhyrchiol. Mae ecosystemau yn sail i'n lles ac yn cefnogi bywydau bodlon ac iach.

Ym mis Mehefin 2021, cydnabuwyd hyn gan y Senedd yng Nghaerdydd wrth iddo ddatgan Argyfwng Natur oherwydd bod cyflwr natur yng Nghymru'n dirwyio'n gyflym.

Yn yr adran hon o'r CGAN, nodir rhywfaint o bwysau nodedig ar ecosystemau yng Ngwynedd sy'n effeithio ar gydnerthedd a bioamrywiaeth. Mae deall a mynd i'r afael â'r pwysau hwn yn hanfodol ar gyfer gwarchod ac adfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol ecosystemau Gwynedd, ac ar gyfer adnabod pa gamau sydd angen eu rhoi ar waith a'u blaenoriaethu.

NEWID HINSAWDD
Mae gweithgaredd dynol yn ystod ac ers y chwyldro diwydiannol yng nghanol y 18fed ganrif wedi arwain at gynnydd mewn nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer. Mae crynodiadau uwch o nwyon tŷ gwydr, fel carbon deuocsid, methan, ac ocsid nitraidd, yn cyfrannu at gynyddu tymereddau cyfartalog byd-eang gan dwysáu amrywioldeb a pha mor eithafol yw'r tywydd ledled y byd.


O ganlyniad, mae ecosystemau yng Ngwynedd yn wynebu mwy o aflonyddwch oherwydd effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol newid hinsawdd megis lefelau uwch o garbon deuocsid, tanau gwyllt, codiad yn lefel y môr, pwysau o ganlyniad i fathau newydd o glefydau a phlâu, a sychder a llifogydd sydyn sydd yn digwydd yn amlach.

DEFNYDD TIR A DATBLYGU
Os na chânt eu hystyried yn ofalus o ran bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystem, bydd gwahanol fathau o arferion defnyddio tir presennol a datblygiadau newydd parhaus, gan gynnwys tai, datblygu masnachol a diwydiannol, chwarela, seilwaith ffyrdd a chyfleustodau, amaethyddiaeth, a datblygu hamdden, yn arwain at ddirywiad yng ngwerth natur trwy beri effaith uniongyrchol ar gydrannau allweddol o gydnerthedd ecosystem - amrywiaeth, maint, cyflwr, addasrwydd a chysylltedd.

MAETH
Gall dŵr ffo a gollyngiadau carthion sy'n llawn maetholion effeithio ar gyrsiau dŵr yng Ngwynedd trwy ewtroffio, lle mae lefelau uwch o faetholion mewn dyfrffyrdd, gan gynnwys nitrogen a ffosfforws, yn arwain at gydbwysedd newidiol o rywogaethau planhigion dyfrol, cyfnodau o dyfiant algâu, lefelau ocsigen is, llai o fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystem is.

Gall hyn hefyd ddigwydd ar dir, wrth i nitrogen o drafnidiaeth a diwydiant gronni mewn pridd.

Mae presenoldeb gormod o nitrogen yn effeithio'n negyddol ar dwf llawer o flodau gwyllt, cennau, a ffyngau sy'n ffynnu mewn priddoedd cymharol dlawd o ran maetholion. O ganlyniad, mae planhigion sy'n hoff o nitrogen fel danadl poethion a mieri yn gwladychu'r amgylcheddau hyn ac yn arglwyddiaethu ar y gofod sydd ar gael, gan leihau twf blodau gwyllt eraill.



GWAHANOL FATHAU O LYGREDD

Gall llygredd sŵn a golau o ardaloedd mwy trefol newid ymddygiad rhai anifeiliaid. Gall ystlumod, er enghraifft, gael eu gyrru i ffwrdd o ardaloedd â gormod o olau.

Mae astudiaethau hefyd wedi dangos y gall rhai mathau o oleuadau stryd amharu ar boblogaethau pryfed, gan leihau cysylltedd a maint ecosystem.

Mae gwastraff plastig yn cronni ar hyd y traethlin hefyd wedi dod yn broblem sylweddol yng Ngwynedd, yn enwedig mewn ecosystemau morol cynhyrchiol ac amrywiol fel Ardal Cadwraeth Arbennig **‘Pen Llŷn a’r Sarnau’**. Mae’r ardal ddynodedig hon yn ymestyn o Nefyn ar arfordir gogleddol Pen Llŷn, ac yn cynnwys rhannau o lan y môr a’r dyfroedd a gwely’r môr o amgylch Llŷn, ac ar hyd arfordir Meirionnydd i Glarach yng Ngheredigion.

Gall plastig a microplastigion leihau bioamrywiaeth yn uniongyrchol trwy beri niwed i fywyd dyfrol a morol trwy fynd i mewn i’r gadwyn fwyd neu achosi i greaduriaid gael eu clymu ynddo.



TWRISTIAETH

Mae PNG yn cydnabod bod twristiaeth yn chwarae rhan hanfodol yn economi Gwynedd fel un o’i diwydiannau mwyaf o ran cyflogaeth a chyfraniad ariannol. Fodd bynnag, gall roi pwysau tymhorol eithafol ar wasanaethau a seilwaith lleol, gan yrru’r galw am ddatblygiad pellach yn aml.

Gall lefelau uchel o dwristiaeth neu weithgareddau hamdden mewn ardaloedd sy’n sensitif o ran natur effeithio’n uniongyrchol ar faint a chysylltedd ecosystemau a chyfrannu’n anuniongyrchol at lygredd aer, sŵn, golau a phlastig.

Mae pwysau ychwanegol i’w hystyried yn cynnwys sbwriel a baw cŵn, chwaraeon dŵr yn tarfu ar famaliaid morol, traffig sy’n arwain at lygredd, ac erydiad llwybrau troed/glannau afonydd.



RHYWOGAETHAU ESTRON YMLEDOL

Mae rhywogaethau estron ymledol, a elwir hefyd yn **“INNS”**, yn rhywogaethau a gyflwynwyd i wledydd Prydain gan bobl ac mae’n debyg eu bod yn lleihau bioamrywiaeth yn uniongyrchol trwy ysglyfaethu ar neu drechu amrywiaeth eang o rywogaethau brodorol, lledaenu clefydau, a/neu ymyrryd ag uniondeb genetig rhywogaethau brodorol.

Mae enghreifftiau o INNS yng Ngwynedd yn cynnwys planhigion adnabyddus fel Jac-y-neidiwr, Clymog Japan, a Rhododendron ponticum. Mae’r ffwng Hymenoscyphus fraxineus wedi achosi’r clefyd dinistriol ‘Gwywiad yr Onnen’ neu ‘Chalara’, sydd wedi arwain at haint ledled y sir a thorri miloedd lawer o goed onnen brodorol ledled Gwynedd.



GWYWIAD COED ONNEN

Ystyrir bod effaith gwywiad coed onnen ar boblogaethau coed onnen yng Ngwynedd yn ddigon difrifol i’w restru fel un sy’n peri pwysau allweddol ar fioamrywiaeth ac ecosystemau’r ardal.

Tarddodd gwywiad coed onnen Chalara yn Asia. Ar ôl ei gyflwyno i Ewrop tua 30 mlynedd yn ôl, mae wedi tarfu ar boblogaethau coed ynn gwledydd Prydain trwy ladd neu wanhau coed a fyddai fel arall yn iach.

Wrth i boblogaethau onnen yng Ngwynedd ildio i’r clefyd, mae llawer o goed wedi cael eu cwmpo neu eu clirio, a byddant yn parhau i gael eu torri, yn bennaf oherwydd pryderon diogelwch y cyhoedd. O ganlyniad, mae’r sefyllfa hon wedi effeithio’n uniongyrchol ar gysylltedd cynefinoedd o fewn coetiroedd presennol, ac hefyd ar hyd ein priffyrdd a’n hochrau ffyrdd ac ardaloedd mwy trefol yn y sir.

Fodd bynnag, mae ochr gadarnhaol bosibl. Mae cynefin pren marw yn darparu manteision sylweddol i lawer o rywogaethau â blaenoriaeth gwarchodedig yng Ngwynedd, fel ystlumod, adar a phryfed. Os yw’n ddiogel gwneud hynny, gall rheoli’r dirywiad a chadw coed onnen aeddfed a hynafol yr effeithir arnyn nhw gan y clefyd gyfrannu at gryfhau cydnerthedd ecosystem a chynyddu bioamrywiaeth.

NATUR YNG NGWYNEDD AC AHNE LLŶN


Mae byd natur ym mhob man, o flodau gwyllt sy'n tyfu rhwng cerrig palmant yng nghanol trefi marchnad Gwynedd, i arfordir gwarchodedig o bwys rhyngwladol ar gyfer adar hirgoes prin.

Mae pob elfen yn cyfrannu at fioamrywiaeth a datblygiad rhwydweithiau ecolegol cadarn ledled y rhanbarth.

BETH SYDD GENNYM NI?

Mae Gwynedd ac AHNE Llŷn yn gartref i amrywiaeth o gynefinoedd. Mae'r map infograffig yn dangos lleoliad a dosbarthiad y cynefinoedd yma.

NODWEDDION CYNEFINOEDD GWYNEDD



CANOLBWYNTIO AR WYNEDD

Yng Ngwynedd mae amrywiaeth gyfoethog o fywyd gwyllt a chynefinoedd.

Mae ei harfordir trawiadol yn cynnwys gwastadeddau lleidiog, clogwyni morwrol, a llethrau. Gall y Sir hefyd ymfalchio mewn ucheldir dramatig, cadwyni mynyddoedd godidog, a dyffrynnoedd gwyrdd wedi'u haddurno â gweddillion coetiroedd 'coedwig law Geltaidd' hynafol a ffeniau gwlyptir.

Mae'r chwareli llechi helaeth, nad ydy'r rhan fwyaf yn cael eu defnyddio heddiw, yn darparu cynefinoedd i wahanol rywogaethau, gan gynnwys cennau prin, ymlusgiaid, pryfed cop, a gloynnod byw. Yn ogystal, mae glaswelltiroedd asidig yr iseldir a rhostir yn creu tirweddau ymylol ucheldir unigryw a elwir yn 'ffridd' ac sy'n nodweddiadol o Wynedd.


Mae'r graffig dros y ddalen yn tynnu sylw at ddetholiad o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n nodweddiadol o Wynedd.



NODWEDDION CYNEFINOEDD GWYNEDD



COED DERW'R UCHELDIR



Nodweddir coed derw'r ucheldir gan oruchafiaeth coed derw, yn gyffredinol derw mes-digoes *Quercus petraea*, ac sy'n raddol drawsffurfio i goedwigoedd cymysg yr ucheldir ar bridd mwy bas-gyfoethog neu briddoedd asidig wedi'u llifolchi ac yna i goetir gwlyb gyda gwern *Alnus glutinosa* ar briddoedd gwlypach yng ngwaelodion y dyffrynnoedd.

Ystyrir bod Gwynedd yn dal rhai o'r crynodiadau mwyaf o goetiroedd derw'r ucheldir yn y DU. Mae ansicrwydd os yw'r cynefin prin hwn yn prinhau yng Ngwynedd, er ei bod yn debygol bod unrhyw ddirywiad wedi'i atal yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd gweithredu rheolaeth i warchod ac ymestyn y cynefin hwn, yn bennaf trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol y gorffennol a'r presennol.

RHOSDIR



Yn cael ei adnabod yn lleol fel rhos, ceir y borfa hon o laswellt y gweunydd a brwyn ar amrywiaeth o uchder, ond mae'r porfeydd hyn o bwys arbennig ar gyfer bioamrywiaeth ar iseldir Gwynedd. Mae'n ymddangos bod sawl darn o'r math hwn o gynefin yn dal i fodoli ledled Gwynedd, gyda chrynodiad o ardaloedd mwy o'r cynefin i'w cael mewn rhannau o Arfon (yn enwedig wrth droed yr ucheldir megis Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Gyfelog ac yna yn nwyrain a chanol Llŷn megis Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Geirch).

TIR ABER



Mae cynefinoedd gwaddodol, rhynglanwol a grëwyd gan ddyddodiad mewn amgylcheddau arfordirol ynni isel yn gynefinoedd nodedig o amgylch arfordir Gwynedd. Ymysg ardaloedd sylweddol o draethellau lleidiog mae Traeth Lafan ar Wastadeddau Bangor, Y Foryd yng Nghaernarfon, harbwr Pwllheli ac aberoedd Mawddach, Glaslyn a Dwyrdd, ynghyd ag ardaloedd sylweddol o fewn Afon Menai.

NODWEDDION RHYWOGAETHAU GWYNEDD

YSTLUM PEDOL LLEIAF



Yn un o ddim ond dwy rywogaeth o ystlum pedol yn y DU, yr ystlum pedol lleiaf yw un o'n hystlumod lleiaf. Yn wahanol i rywogaethau eraill o ystlumod, maen nhw wedi colli'r gallu i gropian yn dda, gan arwain at eu hangen i allu hedfan yn uniongyrchol i'w clwydi. Mae Ardal o Gadwraeth Arbennig (ACA) Glynllifon wedi'i dynodi'n bennaf am ei phoblogaeth o ystlumod pedol lleiaf, fel safle magu a gaeafgysgu. Mae coetiroedd derw ucheldir Gwynedd hefyd yn cynnwys y rhan fwyaf o'r clwydi magu hysbys ar gyfer ystlumod pedol lleiaf Gwynedd. Wrth gadw strwythur a chyfanrwydd hen adeiladau a hysguboriau ac annog cynefinoedd bwydo sy'n llawn pryfed, yn enwedig nodweddion tirwedd syth fel gwrychoedd, gall Gwynedd barhau i fod yn un o gadarnleoedd olaf yr ystlum bach hwn yng Nghymru.

BRITH Y GORS



Mae Cymru yn darparu un o gadarnleoedd Ewropeaidd olaf brith y gors a dyma un o'r prif resymau dros ddethol ACA Corsydd Eifionydd sy'n cynnal y poblogaethau mwyaf arwyddocaol o'r glöyn byw hwn sydd mewn perygl yng ngogledd Cymru. Mae colli cynefin addas o ganlyniad i welliannau mewn porfa, draenio tir a newidiadau mewn arferion pori stoc, yn enwedig lle mae gwartheg neu systemau pori cymysg wedi cael eu disodli gan ddefaid, wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn niferoedd y glöyn byw hwn gan eu bod yn ddibynnol ar ystod o ardaloedd o laswelltir a rhosydd heb eu gwella.

TORGOCH



Yn rhywogaeth weddilliol o'r cyfnod rhewlifol diwethaf, Llyn Padarn yn Llanberis yw un o bum llyn yn unig o fewn Gwynedd ac Eryri y gwyddys eu bod yn cynnal torgoch. Mae Llyn Padarn yn un o ddim ond tri lleoliad naturiol sy'n weddill yng Nghymru ar gyfer y rhywogaeth hon. Mae Llyn Padarn yn SoDdGA ("SSSI" fel yr adnabyddir yn Saesneg) a saif o fewn Parc Gwledig Padarn sy'n cael ei reoli gan Gyngor Gwynedd. Gobeithir bydd gwaith codi ymwybyddiaeth barhaus ymhlith pysgotwyr a defnyddwyr hamdden eraill y llyn ynghyd â monitro ansawdd y dŵr yn rheolaidd mewn perthynas ag ewtroffeddio yn diogelu'r rhywogaeth unigryw hon yng Ngwynedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

CANOLBWYNTIO AR AHNE LLŶN

Ym 1957, dynodwyd rhan sylweddol o Benrhyn Llŷn yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'r dirwedd gydnabyddedig hon, sy'n cwmpasu 15,500 hectar o dir, yn cynnwys 22 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r rhan fwyaf o arfordir yr AHNE hefyd o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau, ac mae hefyd yn adnabyddus am ei harfordir amrywiol, pentiroedd amlwg o gynefinoedd rhostir, lonydd cul a ffiniau caeau traddodiadol nodedig ar ffurf cloddiau. Mae glaswelltiroedd arfordirol a rhostiroedd yn elfennau diffiniol o dirwedd Llŷn, gydag ardaloedd helaeth o rostir arfordirol sy'n anghyffredin yng Nghymru.

Mae'r safleoedd hyn yn hanfodol i sawl rhywogaeth, gan gynnwys y frân goesgoch, y rhywogaeth fwyaf prin o frân sy'n nythu yng ngwledydd Prydain. Mae'r glaswelltir a'r rhostir yn cydbblethu â chlogwyni arfordirol a chwareli segur, gan ddarparu adnoddau hanfodol ar gyfer brain coesgoch sy'n bwydo a nythu.

Mae'r graffig drosodd yn tynnu sylw at ddetholiad o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n nodweddiadol o AHNE Llŷn.



CYNEFINOEDD NODWEDDIADOL AHNE LLŶN

RHYWOGAETHAU NODWEDDIADOL AHNE LLŶN

CLODDIAU



Math cydnabyddedig o ffin sy'n arbennig o nodweddiadol o AHNE Llŷn. Wedi ei lunio o bridd, mae gan glawdd fel arfer wyneb carreg, gyda gwrych wedi'i blannu ar ei ben o bosibl. Maen nhw'n anarferol o ran cyfeiriadedd y cerrig o fewn yr wyneb carreg, sydd fel arfer wedi'u gosod gyda'u hochr fwyaf yn rhedeg yn fertigol. Felly mae ganddyn nhw bwysigrwydd tir a gwerth ecolegol sylweddol ac yn aml maen nhw'n cynnal amrywiaeth o blanhigion clawdd a gwrychoedd, infertebratau, amffibiaid, ymlusgiaid a mamaliaid bach. Mae cynlluniau amaeth amgylcheddol wedi annog rheolaeth ffafriol, dulliau o wella cloddiau presennol a sefydlu cloddiau newydd yng Ngwynedd.

CLOGWYNI MOROL




Mae gan Wynedd (gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri) dros 100km o arfordir gyda chynefin clogwyni a llethrau morwrol. Nodir bod rhannau sylweddol o glogwyni craig galed yn argwylldiaethu'r arfordir gyda datguddiad sylweddol o glogwyni meddal sy'n cynnwys clai clogfeini a dyddodion arwynebol eraill. Mae llawer o lystyfiant arfordir a chlogwyni môr AHNE Llŷn o bwysigrwydd cenedlaethol, lle mae rhostir a geir ar briddoedd asidig yn arbennig o bwysig ar gyfer rhywogaethau di-asgwrn-cefn o flaenoriaeth megis y saerwenynen fawr (*Osmia xanthomelana*).

DOLYDD MORWELLT



Oddi ar arfordir Porth Dinllaen ger Nefyn mae gwely morwellt sy'n gorchuddio ardal maint 46 cae pêl-droed ac mae'n un o'r gwelyau morwellt pwysicaf a mwyaf dwys yng ngogledd orllewin Cymru. Oherwydd ei leoliad cysgodol rhag gwyntoedd gogledd ddwyreiniol, mae Porth Dinllaen yn y lle perffaith i forwellt dyfu. Mae hadau'n cael eu casglu o'r safle rhoddwr hwn ac yn cael eu hadleoli mewn amrywiol leoliadau eraill o fewn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau gyda chymunedau lleol yn chwarae rhan bwysig yn adferiad y dolydd morwellt.

BRÂN GOESGOCH



Mae arfordir a mynyddoedd Gwynedd wedi bod yn hafan i'r aderyn hwn. Mae'r boblogaeth mewndirol sy'n nythu wedi'i gwasgaru ledled y mynyddoedd ac wedi defnyddio'r lluo o chwareli ac adeiladau cysylltiedig a'r gweithfeydd mwyngloddio segur sydd i'w cael yno. Mae'r boblogaeth arfordirol, yn enwedig o amgylch AHNE Llŷn, wedi elwa eto o gynlluniau amaeth amgylcheddol diweddar lle mae gwelliannau mewn arferion pori wedi annog porfa tal tynnacha chynnydd mewn infertebratau tail sy'n bwysig i'r aderyn yma i ffynnu

SAERWENYNEN FAWR



Mae'r saerwenynen fawr yn un o'n rhywogaethau prinnaf. Yn y DU, dim ond mewn dau leoliad o fewn AHNE Llŷn y mae i'w chael ar hyn o bryd. Saif ei chynefin o amgylch clogwyni wedi'u herydu o greigiau meddal fel clai a dyddodion rhewlifol ymhlith tirlithriadau a glaswelltir lled-naturiol a heb ei wella lle mae ei borthiant llystyfol yn bodoli, sef pys y ceirw. Bydd gan gynefin addas hefyd gyflenwad o ddŵr croyw o ollyngiadau sydd ei angen ar yr wenynen arbennig hon i adeiladu ei chelloedd ar gyfer magu. Gyda'r disgwyl i dywydd eithafol yn y gaeaf gynyddu, mae cynefin yr wenynen brin iawn hon bellach dan fygythiad oherwydd erydiad cynyddol a thirlithriadau sydyn a achosir gan ddŵr ffo wedi glaw trwm.

ARDAL CADWRAETH ARBENNIG PEN LLŶN A'R SARNAU

Mae Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau yn un o'r dynodiadau morol mwyaf yn y DU gyda chyfoeth o gynefinoedd morol. Mae'n cynnal ystod eang o rywogaethau ac ecosystemau, rhai ohonyn nhw'n unigryw i arfordir Gwynedd a Chymru.

Mae swyddog dynodedig a gynhelir gan Gyngor Gwynedd, a phartner allweddol ym Mhartneriaeth Natur Leol Gwynedd, yn gweithio i amddiffyn a gwella'r warchodfa alltraeth hon.

Mae'r gwaith sylweddol a wnaed ar y dynodiad yn cael ei gydnabod gan y Cynllun Gweithredu Adfer Natur hwn a bydd y cynllun a amlinellir yn rhan 3 yn cefnogi ac yn gwella'r ymdrechion parhaus yn ACA 'Pen Llŷn a'r Sarnau'.

Gadewch i ni blymio'n gyflym i fyd tanddwr ACA 'Pen Llŷn a'r Sarnau' – defnyddiwch eich dychymyg a gadewch i ni fynd am daith!

O fewn ychydig, fe ewch heibio glannau creigiog wedi'u gorchuddio â llygaid meheryn, crancod meudwy a gobiiod cyn nofio dros wely môr tywodlyd yn fyw gyda physgod lledod, bwganod dŵr a llygod môr. Cewch gipolwg ar ogofâu môr tywyll, gyda'u muriau wedi'u gorchuddio ag anemonïau a chwistrellau môr ffa pob. Efallai y byddwch chi hyd yn oed yn gweld congress yn eich gwyllo chi, neu forlo llwyd yn gorffwys!

Gallech chi benderfynu mentro mynd trwy'r dŵr agored dwfn i ddod o hyd i heulgwn 10m o hyd yn rhidyllu plancton gyda'u cegau enfawr, a dolffiniaid a llamidyddion yn neidio uwchben y tonnau.

Ymhellach ymlaen, mae riffiau byw yn gollwng swigod nwy i'r dŵr ac ar riffiau creigiog y Sarnau efallai y byddwch chi'n sylu ar ddraenogiaid môr bach a mingrynion yn nentydd a sianeli aberoedd yr arfordir.

Oherwydd yr holl dirweddau tanddwr amrywiol ac anarferol, y gwahanol fathau o gynefinoedd gwely'r môr, a'r anifeiliaid a'r planhigion anhygoel sy'n byw yma, mae 'Pen Llŷn a'r Sarnau' wedi'i warchod fel Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ACA 'Pen Llŷn a'r Sarnau' ar-lein yn

www.penllynarsarnau.co.uk



LLE A BETH DDYLEM NI EI FLAENORIAETHU?

Gyda byd natur yn bresennol mewn nifer o leoliadau a ffurfiau, mae'n heriol nodi ardaloedd penodol i ganolbwyntio ymdrechion cadwraeth arnyn nhw.

Mae rhywogaethau a chynefinoedd penodol a ystyrir yn gydrannau 'blaenoriaeth' o fioamrywiaeth yng Nghymru wedi'u diffinio yn Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), ac ychwanegiadau deddf 2026.

Mae Gwynedd yn cyfrif am ganran uchel o ardaloedd gwarchodedig ar gyfer natur yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys 'Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig' neu SoDdGA, 'Ardaloedd Cadwraeth Arbennig' neu ACA, Ardaloedd Gwarchodedig Arbennig' neu AGA, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol neu GNG, 'Safleoedd Ramsar', sef gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol a ddynodwyd o dan gonfensiwn Ramsar, yn ogystal â 'Gwarchodfeydd Natur Lleol' neu GNL.


Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Nod Datblygu Cynaliadwy 14 a 15 y Cenhedloedd Unedig - bywyd o dan y dŵr a bywyd ar y tir - mae'r targed wedi'i osod i amddiffyn 30% o'n tir a'n môr yn effeithiol ar gyfer natur erbyn 2030.

Mae ardaloedd gwarchodedig yn hynod o gyfoethog o ran bioamrywiaeth, a bydd ymdrechion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar eu mwyaf effeithiol wrth ystyried yr ardaloedd hyn a gwella cydnerthedd ecosystemau ynddyn nhw ac o'u cwrpas.

Dyma pam y bydd y camau gweithredu a nodwyd yn y CGAN hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ardaloedd gwarchodedig hyn yng Ngwynedd ac AHNE.

DYNODIADAU

- GNLI** - Gwarchodfa Natur Leol
- GNC** - Gwarchodfa Natur Cenedlaethol
- AGA** - Ardal Gwarchodaeth Arbennig
- ACA** - Ardal Cadwraeth Arbennig
- RAMSAR** - Glyptir o Bwysigrwydd Rhyngwladol
- SoDdGA** - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig



EIN HUCHELGAIS – CYFLE I NATUR ADFER YNG NGWYNEDD AC AHNE LLŶN



Er gwaethaf yr heriau sy'n wynebu bioamrywiaeth ac ecosystemau, mae cyfleoedd i wella cyflwr natur yng Ngwynedd ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn.

Prif nod y cynllun hwn yw: ***“GWELLA CYFLWR NATUR YNG NGWYNEDD AC AHNE LLŶN TRWY DDATBLYGU SYSTEMAU ECOLEGOL CYDNERTH SY’N FWY BIOAMRYWIOL, YN FWY O FAINT, WEDI’U CYSYLLTU’N WELL, AC MEWN CYFLWR FFISEGOL GWELL.”***

Y prif gyfrwng a fydd yn galluogi ac yn grymuso gwahanol bartneriaid a rhanddeiliaid i weithredu i gyflawni'r uchelgais hon yw 'Partneriaeth Natur Gwynedd', neu 'PNG', sef y bartneriaeth natur leol ar gyfer Gwynedd, a 'Phwyllgor Ymgynghorol ar y Cyd' neu 'JAC' AHNE Llŷn.



PARTNERIAETH NATUR GWYNEDD ***‘BACHU AR Y CYFLE GYDA’N GILYDD’***

Sefydlwyd Partneriaeth Natur Gwynedd o dan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, o'r enw 'Natur Gwynedd', yn gynnar yn y 2000au.

Mae PNG yn dod â rhanddeiliaid o grwpiau amgylcheddol, busnesau, cymunedau a chyrff cyhoeddus ynghyd i gydweithio ar brosiectau sy'n hyrwyddo iechyd a lles natur yng Ngwynedd ac AHNE Llŷn. Fe'i cydlynir gan swyddog dynodedig yn yr Uned Bioamrywiaeth yng Nghyngor Gwynedd.

Trwy bartneriaethau â sefydliadau o wahanol sectorau, gellir gwireddu'r canlyniadau dymunol a nodir yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur hwn yn haws trwy rannu adnoddau a gwybodaeth. Bydd cydweithio hefyd yn cynyddu ac yn gwella ymwybyddiaeth o'r cynllun gweithredu.

Cyfrannodd rhanddeiliaid a phartneriaid PNG ynghyd â Phwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn at ddatblygiad y CGAN hwn, trwy ddarparu arweiniad am y camau gweithredu wedi'u targedu y dylid eu blaenoriaethu, ac yr ymhelaethir ymhellach arnyn nhw yn rhan 3 o'r ddogfen hon.



ADEILADU AR WAITH BLAENOROL I SYMUD YMLAEN

Ar ôl nodi'r gwaith perthnasol blaenorol a wnaed yng Ngwynedd ac AHNE Llŷn, nod ein CGAN yw adeiladu ar y sylfeini sydd eisoes wedi'u gosod.

Mae'r CGAN hwn ar gyfer Gwynedd, sy'n cynnwys AHNE Llŷn, yn cofleidio, yn gwella ac yn esblygu ymyriadau llwyddiannus presennol ar gyfer y dyfodol ac yn nodi gofynion newydd i gefnogi natur ymhellach i adfer tra'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

NATUR GWYNEDD

Mae'r CGAN hwn yn disodli'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Gwynedd o'r enw 'Natur Gwynedd', a lansiwyd yn 2000.

Roedd 'Natur Gwynedd' yn cynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau unigol. Cafodd y cynlluniau hyn eu hysgogi'n wreiddiol gan Gonfensiwn 1992 ar Amrywiaeth Fiolegol, a elwir hefyd yn 'CBD', a oedd â'r nod o warchod bioamrywiaeth, hyrwyddo defnydd cynaliadwy o'i gydrannau, a sicrhau rhannu teg o fuddion adnoddau genetig.

Mae dogfen Natur Gwynedd, ei chynnwys eang a'i chynlluniau gweithredu yn dal yn berthnasol iawn heddiw. Mae'n parhau i fod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd penodol a gwmpesir gan brosiectau a yrrir gan y CGAN hwn.

Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur newydd hwn ar gyfer Gwynedd ac AHNE Llŷn yn adeiladu ar yr ymdrechion blaenorol hyn ond mae'n ymgorffori camau gweithredu newydd a mwy perthnasol yn seiliedig ar amgylchiadau a deddfwriaeth gyfredol, gan gynnwys blaenoriaethau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.

CYNLLUN RHEOLI AHNE LLŷN

Mae cynllun rheoli AHNE Llŷn yn cynnwys rhaglen weithredu sy'n amlinellu'r gorchwyllo a'r methodolegau angenrheidiol. Bydd y CGAN hwn yn ategu'r nodau hyn, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â bywyd gwyllt a chynefinoedd, a bydd yn dod â phartneriaid newydd i gyfrannu at eu cyflawni.

Fel dogfen fyw a fydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, bydd y CGAN hwn yn ymateb i amgylchiadau sy'n newid, gan alluogi cynnwys camau gweithredu ychwanegol mewn ymateb i bolisiau, deddfwriaeth a chyfleoedd ariannu newydd, neu fygythiadau a heriau sy'n dod i'r amlwg yn yr AHNE.

DATBLYGU A DEFNYDDIO'R CGAN HWN

Gwnaeth Gwasanaeth Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd baratoi'r CGAN hwn mewn ymgynghoriad â Phartneriaeth Natur Gwynedd. Helpodd trafodaethau rhwng y Cyngor a PNG i nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu adfer natur, fel yr amlinellir yn rhan 3.

Caiff y CGAN hwn ei reoli fel dogfen ddeinamig. Bydd yn cael ei adolygu'n barhaus, gan ganiatáu ychwanegu neu ddileu camau gweithredu mewn ymateb i ddiweddariadau mewn gwybodaeth am rywogaethau a chynefinodd lleol, cyngor, argaeledd adnoddau, newidiadau polisi, deddfwriaeth a chyllid.

Cynhelir adolygiad llawn a chynhwysfawr o'r CGAN hwn ddeng mlynedd ar ôl ei gyhoeddi.

Er mwyn monitro cynnydd, bydd PNG a CHY (JAC) AHNE Llŷn yn llunio ac yn cyhoeddi diweddariad blynyddol a rhestr o brosiectau a gweithgareddau sy'n cyfrannu at wireddu'r CGAN yng Ngwynedd ac AHNE Llŷn.

Bydd y diweddariadau blynyddol hyn yn cael eu cyhoeddi a'u gwneud ar gael ar y llwyfannau ar-lein canlynol:

Gwefan Cyngor Gwynedd

Tudalen Facebook Partneriaeth Natur Gwynedd

Gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

Gwefan WCVA ('Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru')





RHAN 2 'EIN MILLTIR SGWÂR'



Yn dwyn y teitl **'Ein Milltir Sgwâr'**, mae rhan 2 o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur hwn yn herio ac yn cefnogi pob un ohonom am yr hyn y gallwn ei wneud i helpu natur i adfer.

Mae'n darparu syniadau ac arweiniad i'r rhai sydd eisiau helpu byd natur yn eu "milltir sgwâr" yng Ngwynedd. Mae'n dod ag adnoddau ynghyd mewn un lle cyfleus i'w gwneud hi'n haws i chi fel unigolion, grwpiau a sefydliadau.



BETH ALLA I EI WNEUD DROS FYD NATUR?

Mae'r ymadrodd "ein milltir sgwâr" yn cyfleu ystyr y tu hwnt i ddiffiniad llythrennol. Pan gyfeiriwn at 'ein milltir sgwâr' rydym yn disgrifio ein hardal leol a'r ymdeimlad o berthyn i'r amgylchedd hwnnw, yr amgylchoedd cyfarwydd sydd ag arwyddocâd corfforol ac emosiynol, a'n "cynefin" - y lle rydym yn teimlo'n gartrefol.

Mae'n ein helpu i ddeall y cysylltiad dwfn sydd gennym â byd natur, sut mae'n ein cefnogi, a sut y gallwn ei gefnogi.

Yma, rydym yn dod ag adnoddau ynghyd mewn un lle cyfleus er hwylustod i chi eu defnyddio, p'un a ydych chi'n unigolyn sydd â diddordeb, yn rhan o grŵp neu'n aelod o sefydliad sydd eisiau helpu adferiad natur yng Ngwynedd.

Rydym i gyd yn gallu cefnogi adferiad byd natur mewn rhyw ffordd, naill ai o amgylch ein gardd ein hunain, yn y gwaith, neu drwy gyfrwng grŵp cymunedol neu elusen leol. Yn aml, mae un unigolyn neu gymuned sy'n gweithredu i helpu byd natur yn ysbrydoli eraill o'u cwrpas i wneud yr un peth.

Dros yr ychydig dudalennau nesaf, byddwn yn archwilio sut y gallwch chi helpu adferiad natur trwy ddarganfod, cofnodi, amddiffyn, creu a rhannu.




DARGANFOD



COFNODI



GWARCHOD



CREU



RHANNU



DARGANFOD NATUR GWYNEDD

Pan fyddwn yn gwerthfawrogi byd natur, mae mwy o awydd i'w wella a'i ddiogelu. Y ffyrdd gorau o werthfawrogi natur yw ei fwynhau yn gyntaf. Gall treulio amser ym myd natur, i ffwrdd o bwysau bywyd bob dydd, olygu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer iechyd a lles.

Mae'r adran hon yn arddangos y lleoedd y gallwn 'ddarganfod' natur, o ymweld â gwarchodfeydd natur lleol, dod o hyd i adnoddau addysgol, a defnyddio llwybrau teithio egniol sydd ar gael yng Ngwynedd ac AHNE Llŷn.



DARGANFOD RHYWLE ARBENNIG AR GARREG EICH DRWS

Mae cyfoeth o safleoedd yng Ngwynedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer bywyd gwyllt ac ar gyfer annog pobl i gysylltu â natur... ac efallai eu bod yn nes atoch nag yr ydych chi'n meddwl!

Mae gan Wynedd rwydwaith eang o hawliau tramwy cyhoeddus sy'n aml yn ein harwain o'n cymunedau i ardaloedd mwy gwyrdd ac efallai tir mynediad agored ymhellach i ffwrdd. Mae PNG yn annog pawb i fod yn gyfarwydd â'u rhwydwaith hawliau tramwy lleol ac i werthfawrogi 'byd natur ar garreg eich drws'.

Un ffordd ddefnyddiol o'ch cynorthwyo i ddarganfod byd natur sy'n agos atoch chi yw defnyddio'r ddolen ganlynol isod

<https://aderyn.lercwales.org.uk>

Teipiwch eich cod post i mewn a darganfyddwch gofnodion y rhywogaethau sydd wedi'u gweld a'u cofnodi ar garreg eich drws!

DARGANFOD EICH GWARCHODFEYDD NATUR

Yn aml, ystyrir gwarchodfeydd natur fel y lleoedd mwyaf syml i ddarganfod byd natur, gyda chyfleusterau fel llwybrau troed hygyrch ac adnoddau dehongli. Mae Cyngor Gwynedd ynghyd â sefydliadau eraill fel CNC, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ynghyd â chyrff eraill yn rheoli ac yn cynnal sawl lleoliad yng Ngwynedd.

Dyma restr o adnoddau ar-lein i'ch tywys ar eich ffordd i ddarganfod ac archwilio gwarchodfeydd natur Gwynedd ac AHNE Llŷn.

GWARCHODFEYDD BYD NATUR CYNGOR GWYNEDD
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Leisure-parks-and-events/Parks-and-green-spaces/Local-Nature-Reserves.aspx>

GWARCHODFEYDD COETIR CYNGOR GWYNEDD
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Leisure-parks-and-events/Parks-and-green-spaces/Woodlands.aspx>

GWARCHODFEYDD A REOLIR GAN RSPB GOGLEDD CYMRU
<https://www.rspb.org.uk/days-out/reserves>

GWARCHODFEYDD A REOLIR GAN YMDDIRIEDOLAETH NATUR GOGLEDD CYMRU (NWWT)
<https://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/nature-reserves>

COETIROEDD A REOLIR GAN COED CADW
<https://www.woodlandtrust.org.uk/visiting-woods/woods>

ARDAL CADWRAETH ARBENNIG PEN LLŶN A'R SARNAU
<https://www.penllynarsarnau.co.uk>



DARGANFOD BYD NATUR YNG NGWYNEDD



DARGANFOD BYD NATUR TRWY DEITHIO EGNÏOL - 'ACTIVE TRAVEL'

Mae digonedd o ddewisiadau teithio egnïol yng Ngwynedd ac AHNE Llŷn, o'r hen lwybrau mynyddig a'r bylchau o amgylch Yr Eifl a Ffestiniog i'r rhwydwaith o lwybrau hamdden iseldir fel Lôn Las Ogwen, Menai, ac Eifion ar gyfer beicio, cerdded a gyrru olwynion.

Mae rhwydwaith 'Lôn Las' yn mynd trwy lu o dirweddau cyferbyniol o Fethesda drwodd i Fangor ac yna ar hyd culfor Menai i Gaernarfon ac ymhellach ymlaen i Feirionnydd.

Nid yn unig y mae teithio egnïol yn dda i'n hiechyd, ond mae hefyd yn ffordd wych o archwilio natur.

Trwy ddewis peidio â theithio mewn car wrth fynd i'r gwaith, gallwn hefyd leihau ein hallyriadau, gan helpu i leihau llygredd lleol ac ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd hefyd.

DYMA BOPETH SYDD ANGEN I CHI EI WYBOD AM RWYDWAITH BEICIO 'LÔN LAS' YNG NGWYNEDD

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Leisure-parks-and-events/Parks-and-greenspaces/Recreational-Routes.aspx>

Dyma restr bellach o ddewisiadau teithio egnïol yng Ngwynedd ac AHNE.

DARGANFOD ADNODDAU TEITHIO EGNÏOL CYNGOR GWYNEDD

MAPIAU Y GELLIR EU LLAWRLWYTHO
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Parking-roads-and-travel/Active-travel.aspx>

GWYBODAETH A MAPIAU AM LWYBRAU BEICIO CYLCHOL LLŷN
<https://www.ahne-llyn-aonb.org/Content/Upload/Llyn-Circular-Cycle-Routes.pdf>

GWYBODAETH GYFFREDINOL I'CH HELP U I FEICIO MWY
<https://www.sustrans.org.uk/about-us/our-work-in-wales/>

GWYBODAETH AM DEITHIAU CERDDED CYLCHOL YN LLŷN SY'N YMGORFFORI 'LLWYBR ARFORDIR CYMRU'
<https://www.ahne-llyn-aonb.org/Circular-Walks>

GWEFAN SWYDDOGOL LLWYBR ARFORDIR CYMRU
<https://www.walescoastpath.gov.uk/?lang=en&>

GWYBODAETH AM LWYBRAU HAMDDEN YNG NGWYNEDD
<https://www.visitsnowdonia.info/gwyneddrecreational-routes>

DARGANFOD ADNODDAU ADDYSGOL

Mae yna ddigonedd o adnoddau addysgol yn cael eu cynnig ar-lein i gynorthwyo'r rhai sy'n darparu addysg neu i'r rhai sydd â maes arbenigedd mwy arbenigol.

Dyma ychydig o adnoddau addysgol a fydd yn eich helpu i ddysgu mwy wrth i chi ddarganfod byd natur

GWYNEDD AC AHNE LLŷN
<https://www.penllynarsarnau.co.uk/education-pack>

ADDYSG COETIROEDD
<https://www.woodlandtrust.org.uk/support-us/act/your-school/resources/>

<https://www.trees.org.uk/Help-and-Advice>

ADDYSG YNG NGHMYMRU
<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/education-and-skills/looking-for-learning-resources>

<https://forestschoollassociation.org/what-is-forest-school>

<https://www.field-studies-council.org/resources>

<https://www.llennatur.cymru>

ADNODDAU AR GYFER ECOLEGWYR PROFFESIYNOL A GWEITHWYR CADWRAETH
www.conservationevidence.com



COFNODI NATUR

Os ydych chi’n crwydro’n rheolaidd ym myd natur, efallai yr hoffech chi ddechrau, neu efallai eich bod chi hyd yn oed wedi dechrau, cofnodi’r bywyd gwyllt rydych chi’n ei weld.

Mae cofnodion rhywogaethau yn hollbwysig i amddiffyn a gwella natur. Pan fyddwn ni’n gwybod beth sydd gennym ni, mae gennym ni well syniad o’r hyn y gallwn ni ei wneud i helpu.

Mae ecolegwyr proffesiynol, rheolwyr gwarchodfeydd, elusennau natur, datblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol, a sefydliadau Llywodraeth fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gyd yn defnyddio cofnodion rhywogaethau i lywio prosesau gwneud penderfyniadau. Mae cofnodion yn helpu i adeiladu darlun o gyflwr byd natur mewn ardal ac yn ein galluogi i osod amcanion rheoli, darparu gwelliant bioamrywiaeth, a rhoi cyfle i fonitro ac adolygu ymdrechion cadwraeth blaenorol a chyfredol.

Mae cofnodi yr un mor bwysig â chyflawni gwaith cadwraeth ar lawr gwlad, gan ei fod yn sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir er budd natur yn effeithiol ac yn llwyddiannus.

Mae pob cofnod yn bwysig, hyd yn oed cofnodion adar yn eich gardd, ac nid oes angen i chi fod yn naturiaethwr arbenigol i gofnodi bywyd gwyllt!



COFNOD EIN CANOLFAN COFNODION AMGYLCHEDDOL LEOL

Mae ‘Cofnod’ yn un o bedair Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol (LERCs) yng ngogledd Cymru ac mae’n rhan o’r rhwydwaith cenedlaethol cyntaf o LERCs yn unrhyw le yn y DU.

Dewiswyd yr enw i adlewyrchu pwysigrwydd arsylwi a chofnodi bywyd gwyllt, gyda chreu cofnod yn fan cychwyn ar gyfer yr holl ddata amgylcheddol a gedwir. Gorchwyl y LERCs yw dwyn yr holl gofnodion unigol hyn ynghyd mewn cronfa ddata ganolog, gan ganiatáu i bob un ohonom gael gwell gwybodaeth am yr amgylchedd yr ydym yn byw ynddo.

SUT ALLWCH CHI DDECHRAU COFNODI?

Mae cyflwyno cofnodion rhywogaethau yn hawdd!

Fodd bynnag, bydd angen i chi benderfynu o’r dewisiadau isod sut hoffech chi wneud hyn. Gall y dull a ddewiswch ddibynnu ar nifer ac amrywiaeth y cofnodion rhywogaethau rydych chi’n bwriadu eu cymryd, a pha mor aml rydych chi am eu cyflwyno.

Os ydych chi’n ansicr pa ddull i’w ddefnyddio neu os oes angen cyngor pellach arnoch ar gyflwyno cofnodion, cliciwch ar y ddolen we hon.

<https://www.cofnod.org.uk/recording>

Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn eich arwain ar sut i gymryd rhan mewn cofnodi rhywogaethau yng Ngwynedd, neu cysylltwch â ‘Cofnod’ yn uniongyrchol drwy www.cofnod.org.uk

Bydd Cofnod yn gallu eich cyfeirio at un o dri dewis ar sut i gofnodi eich canfyddiadau.

DEWIS 1 DEFNYDDIWCH ORS ‘COFNOD’

Mae System Gofnodi Ar-lein (ORS) Cofnod yn ddelfrydol i unrhyw un sydd am gofnodi bywyd gwyllt tra’n dymuno peidio â storio’r cofnodion ar ei cyfrifiadur ei hunain. Cofrestrwch unwaith drwy glicio ar y ddolen we ganlynol a chewch fynediad at ddigon o nodweddion defnyddiol i sicrhau bod cofnodi’n haws ac yn fwy boddhaol.

<https://cofnod-ors.lerc.online>

DEWIS 2 LAWRLWYTHWCH AP LERC CYMRU

Mae ap LERC Cymru yn caniatáu ichi fynd â’ch system cofnodi ar-lein i’r maes ar eich ffôn clyfar neu dabled. I gyflwyno cofnodion gan ddefnyddio ap LERC Cymru bydd angen i chi greu a chofrestru’ch cyfrif.

Cliciwch ar y ddolen hon i ddechrau.
<https://www.lercwales.org.uk/app.php>

DEWIS 3 ANFON DATA AT ARBENIGWR LLEOL

mae’r cyfleuster chwilio ar-lein hwn yn eich helpu i ddod o hyd i fanylion cyswllt arbenigwyr rhywogaethau lleol.

<https://www.cofnod.org.uk/recording>

DEWIS 4 ANFONWCH E-BOST AT ‘COFNOD’ GYDA’CH COFNODION

boed yn gofnod o rywogaeth sengl, taenlen neu gronfa ddata gyfan, gallwch e-bostio eich cofnodion at ‘Cofnod’ a byddan nhw’n sicrhau ei fod yn cael ei uwchlwytho i’r system.

Ei cyfeiriad e-bost yw record@cofnod.org.uk



COFNODI

COFNODI NATUR RHESTR O GOED HYNAFOL

Mae coed hynafol yn rhyfeddol. Mae rhai ohonyn nhw wedi byw ers miloedd o flynyddoedd, gan ein cysylltu â'n hanes a'n diwylliant. Mae ganddyn nhw werth ecolegol rhyfeddol hefyd, gan gynnal miloedd o rywogaethau.

O ran y coed arbennig hyn, mae'r DU yn hynod bwysig. Mae gennym nifer anhygoel o goed hynafol o'i gymharu â gweddill Ewrop - o'r ywen hynaf mewn mynwentydd i goed derw unig mawreddog yn sefyll mewn cae.

Gallwch helpu i gofnodi coed hynafol trwy eu rhoi ar y map yn llythrennol wrth glicio ar yr adnodd ar-lein hwn.

<https://ati.woodlandtrust.org.uk>

Mae cael cefnogaeth gan bobl fel chi i gofnodi'r coed hynaf a llawn cymeriad yn ein helpu i nodi mannau pwysig o ran coed hynafol, monitro bygythiadau cyfredol a cholledion yn y dyfodol, ac yn bwysicach fyth gynllunio sut orau i warchod y coed arbennig hyn ar gyfer y dyfodol.



GWARCHOD

Mae gwirfoddoli gyda sefydliad amgylcheddol lleol yn ffordd wych o helpu natur tra hefyd yn darparu nifer o fuddion personol fel gwella lles, iechyd corfforol a meddyliol, a datblygiad gyrfa.

Mae'r rhestr isod yn cynnwys cyfeiriadur o sefydliadau lleol sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli yng Ngwynedd o ddyddiau hamddenol yn cofnodi a monitro rhywogaethau i gasglu sbwriel mynydd mwy egniol!

Os all eich sefydliad ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli i unigolion neu grwpiau, rhwch wybod i'r PNG!

Cymerwch gipolwg drwy'r rhestr isod i weld sut allwch chi gymryd rhan weithredol mewn gwarchod byd natur.

CYFEIRIADUR GWIRFODDOLI

GWIRFOLODDI GYDAG YMDDIRIEDOLAETH NATUR GOGLEDD CYMRU

<https://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/takeaction/volunteer/conservation-volunteering>

GWIRFODDOLI GYDA CHYMDEITHAS ERYRI

<https://www.snowdonia-society.org.uk/volunteer/>

GWIRFODDOLI GYDA'R YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL

<https://www.nationaltrust.org.uk/visit/wales/volunteering#volunteering-in-north-wales>

GWIRFODDOLI GYDA COED CADW

<https://www.woodlandtrust.org.uk/support-us/act/volunteer-with-us>

GWIRFODDOLI GYDA RSPB CYMRU


https://volunteer.rspb.org.uk/opportunities#display=grid&s=date_advertised&o=desc

GWIRFODDOLI GYDA COFNOD

<https://www.cofnod.org.uk/Calendar>

GWIRFODDOLI GYDA AHNE LLŶN

<https://www.ahne-llyn-aonb.org/Friends-of-the-AONB>





CREU

P'un a ydych chi'n byw mewn tŷ gyda gardd neu fflat yng nghanol y dref, mae yna nifer o bethau y gallwch chi eu gwneud i helpu natur yn eich cartref. Isod, fe welwch chi ddolenni ar gyfer dau adnodd ar-lein defnyddiol sy'n cynnig syniadau ac arweiniad ar gyfer 'llwyddiannau hawdd i fyd natur' fel adeiladu blwch adar, creu ardal i flodau gwyllt, neu blannu coeden.

YDYCH CHI'N MEDDWL AM BLANNU COEDEN?

Edrychwch ar y dudalen we hon i wneud yn siŵr eich bod chi wedi ystyried popeth sydd ei angen arnoch chi ar gyfer sefydlu coed ifanc yn llwyddiannus

<https://www.trees.org.uk/Trees.org.uk/media/Treesorg.uk/Documents/Tree%20Aftercare/YoungTreeEstablishmentGuide-web.pdf>

EISIAU ANNOG ADAR I'CH GARDD?

Gweler tudalen ganllawiau RSPB Cymru i helpu i ofalu am adar lleol:

<https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/helping-birds-and-wildlife>

NEU BETH AM GREU DÔL BLODAU GWYLLT A FYDD YN DENU DIGONEDD O BRYFED I'CH GARDD?

Yna ewch i wefan Cadwraeth Cacwn am ragor o wybodaeth

<https://www.bumblebeeconservation.org/how-i-created-a-mini-meadow-in-my-garden>



RHANNU

Pan fydd un unigolyn neu gymuned yn cymryd camau i helpu natur, mae eraill o'u cwpas yn aml yn cael eu hysbrydoli i wneud yr un peth, ond dim ond pan fyddwn yn rhannu ein gwaith rhagorol!

O unigolion i sefydliadau mawr, rydym i gyd yn gallu helpu adferiad byd natur mewn rhyw ffordd, o ymweld â gwarchodfeydd natur, gosod blwch adar, neu anfon cofnodion o'r hyn rydych chi wedi'i weld.

Os ydych chi neu'ch sefydliad wedi gwneud rhywbeth i helpu natur, rhowch wybod i ni! Rhannwch eich profiadau ar y cyfryngau cymdeithasol neu anfonwch e-bost atom gyda'r manylion – efallai y bydd cydlynnydd Partneriaeth Natur Gwynedd hefyd yn gallu eich cefnogi gydag arweiniad neu gyllid, felly cysylltwch â ni i rannu.

EIN CYFEIRIAD E-BOST YW:

partneriaethnatur@gwynedd.llyw.cymru

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol poblogaidd canlynol.

FACEBOOK

[@Partneriaeth-Natur-Gwynedd-Nature-Partnership](https://www.facebook.com/Partneriaeth-Natur-Gwynedd-Nature-Partnership)



X

[@naturgwynedd1](https://twitter.com/naturgwynedd1)

INSTAGRAM


[@partneriaeth_natur_gwynedd](https://www.instagram.com/partneriaeth_natur_gwynedd)

Os oes gennych ymholiadau cyffredinol pellach neu gwestiynau penodol yr hoffech eu gofyn, cysylltwch â'r bartneriaeth wrth ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod.



RHAN 3

CYNLLUN
GWEITHREDU
AR GYFER
PARTNERIAETH
NATUR
GWYNEDD



Mae Rhan 3 o'n Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu i gefnogi adfer natur o fewn sir Gwynedd sy'n cynnwys AHNE Llŷn.

Bydd y camau gweithredu hyn yn adlewyrchu ac yn dangos sut y gallwn fynd i'r afael â'r amcanion, sef rhai Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru, a'r cyfleoedd a nodwyd a'u blaenoriaethu o fewn Gwynedd gan Ddatganiad Ardal y Gogledd Orllewin (Cyfoeth Naturiol Cymru).

Gan weithio o fewn canllawiau cenedlaethol a rhanbarthol, nod ein cynllun gweithredu ar gyfer adfer natur yng Ngwynedd yw hyrwyddo camau gweithredu a phrosiectau a fydd yn cyfuno hyrwyddo a chefnogi cynefinoedd presennol o fewn y dirwedd a cheisio cyfleoedd newydd i gyflawni adferiad natur ar raddfa ehangach ee trwy gysylltedd cynefinoedd ar draws tirwedd. Mae'r camau gweithredu a'r blaenoriaethau cyfunol hyn wedi'u cytuno gan y Bartneriaeth Natur Leol yng Ngwynedd a byddan nhw'n darparu offeryn asesu effeithiol ar flaenoriaethu ein hamcanion wrth symud ymlaen.

ADFER NATUR GWYNEDD O FEWN FFRAMWAITH
CENEDLAETHOL

Mae'r camau gweithredu a nodir dros y tudalennau nesaf yn cefnogi amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru drwy nodi themâu gwaith allweddol ac ystyried yr heriau a'r cyfleoedd wrth eu cyflawni. Yn bwysig, mae hefyd yn adlewyrchu ac yn adeiladu ar brosiectau a chamau gweithredu'r gorffennol a'r presennol a gymerwyd gan randdeiliaid ledled Gwynedd gan amlygu gwaith y Bartneriaeth wrth gyflawni camau gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol 'ar riniog ein drws'.

Er mwyn deall cyd-destun y cynllun a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Gwynedd, mae angen i ni fod yn ymwybodol o'r amcanion a'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun cyfatebol ar gyfer Cymru. Bydd y ddau gynllun yn ategu ac yn cefnogi ei gilydd i sicrhau bod natur yn elwa o'r adnoddau a fuddsoddwyd, tra ar yr un pryd yn sicrhau bod angen cynllun gweithredu Gwynedd yn ymateb i anghenion lleol penodol.

CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR CYMRU

Lansiwyd Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) Cymru gan Fwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru Llywodraeth Cymru yn 2015, ac mae ei aelodau’n cynrychioli rheolwyr tir a môr, Cyfoeth Naturiol Cymru, y trydydd sector amgylcheddol (nid sefydliadau cyhoeddus na phreifat), awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, a Llywodraeth Cymru. Mae’n gynllun i bawb yng Nghymru a’i nod yw mynd i’r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth yng Nghymru drwy:

- osod natur wrth wraidd gwneud penderfyniadau.
- gynyddu cydnherthedd yr amgylchedd naturiol.
- gymryd camau penodol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau.

Mae CGAN Cymru yn nodi sut y bydd Cymru’n cyflawni ei hymrwymadau i gynllun strategol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth Biolegol (CaFB) ar gyfer bioamrywiaeth a’r targedau bioamrywiaeth a’r Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) yng Nghymru.

Mae’r CGAN dros Gymru’n nodi camau gweithredu y gellir eu cyflawni yn y tymor byr, ac yn ystyried argymhellion tymor hwy fel y rhai a nodwyd yn yr ‘Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth’ a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022 ac a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni (CaFB) y Cenhedloedd Unedig trwy amddiffyn 30% o’r tir a 30% o’r môr erbyn 2030.

Bydd y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn y CGAN dros Gymru’n cael eu hadolygu’n rheolaidd a bydd set o ddangosyddion yn cael eu datblygu i fesur cynnydd CGAN yn erbyn yr amcanion a nodwyd.

Mae’r CGAN dros Gymru’n cysylltu â ‘Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015’ a ‘Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a 2026’. Dyma ddau ddarn pwysig o ddeddfwriaeth y mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus fel awdurdodau lleol, cyngorau tref a chymuned a byrddau iechyd eu dilyn.

Mae amcanion wedi’u nodi yn y CGAN dros Gymru i fynd i’r afael â’r materion sy’n sbarduno’r dirywiad cenedlaethol mewn bioamrywiaeth. Mae’r cynllun yn mynd ymlaen i restru’r ymyriadau cymorth sydd eu hangen i gynorthwyo adferiad natur.

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwynedd, sy’n cynnwys AHNE Llŷn, yn darparu mecanwaith ar gyfer cyflawni’r amcanion a’r camau gweithredu cenedlaethol hyn o fewn y cymunedau a chynefinoedd a thirweddau amrywiol Gwynedd.



AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR AR GYFER CYMRU

DYMA AMCANION STRATEGOL Y CGAN AR GYFER CYMRU:

1. Amddiffyn, adfer a rheoli ecosystemau yn effeithiol i feithrin eu gwydnwch.
2. Diogelu rhywogaethau a chreu lle i rywogaethau ffynnu.
3. Mynd i’r afael â’r prif bwysau ar rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau.
4. Sefydlu llywodraethiant effeithiol a’r gallu i gyflawni.
5. Ymgorffori bioamrywiaeth drwy hybu diddordeb ac ymwybyddiaeth i gefnogi’r broses o wneud penderfyniadau effeithiol ar bob lefel.
6. Gwella ein tystiolaeth a’n gwaith monitro.

HERIAU A CHYFLEOEDD AR GYFER ADFER NATUR YNG NGWYNEDD, GAN GYNNWYS AHNE LLŶN

Wrth baratoi'r CGAN ar gyfer Gwynedd ac AHNE Llŷn, roedd yn bwysig cydnabod a nodi'r camau gweithredu sy'n rhesymol i'r Bartneriaeth Natur Leol eu cyflawni a'u halinio â Chynllun Gweithredu Hinsawdd Gwynedd a thargedau Adran 6 a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (2016 a 2026).

Ar yr un pryd, mae'r CGAN hwn yn ceisio nodi a chydabod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer bioamrywiaeth o fewn y Sir, a'r ffordd orau o ymateb i sicrhau bod byd natur yn adfer.

Drwy gydnabod hefyd y gweithgareddau a'r prosiectau ystyrlon sydd ar y gweill neu sydd ar waith ar hyn o bryd gan unigolion, grwpiau a sefydliadau, mae'r CGAN hwn ar gyfer Gwynedd ac AHNE Llŷn yn cydnabod sut mae'r ymyriadau a'r camau gweithredu hyn yn cyfrannu at gyflawni amcanion lleol a chenedlaethol CGAN nawr, ac i'r dyfodol.

Rhaid inni hefyd ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithredoedd a sut y gall ymyriadau cadarnhaol ddod â buddion hirdymor cynaliadwy i gysylltu pobl â'u hamgylchedd lleol drwy:

- Annog cydweithio a chyfathrebu gwell rhwng rhanddeiliaid newydd a rhai presennol, boed hynny'n unigolion, grwpiau cymunedol ac asiantaethau cyhoeddus, preifat neu drydydd sector.
- Gweithredu canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol a fydd yn cael eu cynnal y tu hwnt i'r ymyriadau a'r gweithgareddau cychwynnol.
- Galluogi tirweddau a chymunedau gwell a mwy cydgysylltiedig a fydd yn cyfrannu at helpu i lunio Gwynedd a AHNE Llŷn.
- Bydd rhannu gwybodaeth am ein gwaith yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth a natur gyda chynulleidfaoedd newydd.
- Arddangos sut y mae dyletswyddau Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd yng Ngwynedd ac AHNE Llŷn yn cael eu gweithredu.



EIN HYMATEB I HERIAU ADFER NATUR YNG NGWYNEDD

Mae'n bwysig ystyried sut y gall ein gweithredoedd gyflawni buddion ar raddfa tirwedd gan ddod â chanlyniadau amgylcheddol cadarnhaol i dirfeddianwyr, ffermwyr, cymunedau ac unigolion sy'n byw ac yn gweithio yng Ngwynedd.

Drwy weithio mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid a phartneriaid, gallwn gyflawni mwy dros natur gyda llai o adnoddau. Er enghraifft, gall addasu ein ffyrdd o weithio gynyddu enillion bioamrywiaeth a chreu mannau gwyrdd gwerthfawr yn ein cymunedau gwledig a threfol.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Partneriaeth Natur Gwynedd wedi cyflawni sawl prosiect sydd wedi mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r materion sy'n gyrru'r dirywiad cenedlaethol mewn bioamrywiaeth yn unol â chanllawiau cenedlaethol a nodir yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru.

ASTUDIAETH ACHOS 1



ACA PEN LLŶN A'R SARNAU – ADFER A GWARCHOD MORWELLT


Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau (PLlaS) yn ymestyn o Nefyn ar arfordir gogleddol Pen Llŷn i tua milltir i'r gogledd o Aberystwyth. Rheolir y safle ar y cyd gan y Grŵp Awdurdodau Perthnasol, wedi'i gydlynw gan Swyddog ACA.

Mae sawl elfen allweddol i reoli safleoedd gan gynnwys:

- sicrhau digon o arian ac adnoddau.
- gweithio mewn partneriaeth weithredol.
- ymgysylltu effeithiol â'r gymuned a defnyddwyr y safle.
- darparu rheolaeth a chyflawniad prosiectau.
- arferion gwerthuso monitro llwyddiannus.

Mae'r DU wedi colli hyd at 92% o'i dolydd morwellt ac mae hyn yn cyfrannu at gyflwr anffafriol rhai o nodweddion cadwraeth PLlaS.

Ar hyn o bryd mae dau brosiect ar raddfa fawr, y ddau wedi'u hariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn gweithio i adfer a gwarchod morwellt PLlaS a thu hwnt.



MORWELLT ACHUB CEFNFOR

Yn gyntaf, nod y prosiect 'Morwellt Achub Cefnfor' yw adfer morwellt ledled Pen Llŷn ac Ynys Môn drwy blannu hadau morwellt ledled arwynebedd sy'n mesur 10 hecтар. Yn ail, mae prosiect 'Natur am Byth' (NaB) yn brosiect Cymru gyfan sy'n ceisio adfer 67 o rywogaethau sydd mewn perygl neu dan fygythiad. Mae elfen forol NaB yn cynnwys morwellt gyda'r nod o amddiffyn y boblogaeth bresennol drwy leihau effaith angorfeydd.

Mae ailgysylltu pobl â byd natur yn agwedd bwysig ar y ddau brosiect. Bydd hyn nid yn unig yn helpu i sicrhau llwyddiant hirdymor y prosiectau ond bydd hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles y rhai sy'n cymryd rhan.

Mae cyfleoedd i gymunedau lleol a defnyddwyr y safle wirfoddoli gan gynnwys casglu a phlannu morwellt, monitro, casglu darnau o forwellt yn ogystal ag archifo gorchwylion.

Mae addysg hefyd yn elfen allweddol o weithgareddau. Drwy ddefnyddio'r pecyn addysg 'Tir a Môr' a ddatblygwyd mewn partneriaeth mewn prosiect blaenorol, mae'r Swyddog ACA wedi gallu darparu cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau i ysgolion.



ASTUDIAETH ACHOS 2




CAE CHWARAE BODAWEN, PORTHMADOG

Derbyniwyd ymholiad gan Gyngor Tref Porthmadog i gynnal rhaglen waith ‘arbrofol’ ar 2.3ha o dir cyhoeddus ar gyrion Porthmadog. Nod y rhaglen oedd sicrhau bod y defnydd cyhoeddus presennol yn cael ei gynnal, ond hefyd i ddatblygu tua 2ha o’r safle fel cynefin i fywyd gwyllt, ac yn enwedig planhigion a fyddai’n denu peillwyr.

Yn hanesyddol, cynhaliwyd cae chwarae Bodawen trwy gytundeb ffurfiol rhwng Cyngor Tref Porthmadog ac adran fwrdeistrefol Cyngor Gwynedd. Roedd hyn yn golygu bod y safle cyfan yn cael ei dorri tua chwech i wyth gwaith rhwng mis Mawrth a mis Medi, ond dim ond 0.3 hectar oedd â defnydd cyhoeddus rheolaidd, wrth i deuluoedd ymweld â’r maes chwarae a oedd ar y safle.

Caniataodd cyllid trwy Bartneriaeth Natur Gwynedd i’r Cyngor Tref geisio sefydlu cynefin i beillwyr a blodau brodorol ar y tir nad oedd yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd. Prif nod y prosiect oedd cynnal y man chwarae fel yr oedd gyda’r drefn dorri reolaidd, a rheoli’r 2 hectar sy’n weddill er budd bioamrywiaeth trwy sefydlu system o ‘dorri a chasglu’ y cnwd ar ddiwedd y tymor tyfu.



ROEDD Y GWAITH A WNAED YN CYNNWYS:

- **Sefydlu’r cynefin newydd – comisiynwyd contractwr i dorri a chasglu’r cae cyfan, crafu a sgrifffinio 2ha o’r tir i gael gwared ar yr hen dyfiant glaswellt ac yna ychwanegu hadau cynhenid o ffynhonnell leol a fyddai’n ychwanegu at yr amrywiaeth o rywogaethau ar y safle.**
- **Cynnal a sicrhau bod y maes chwarae 0.3ha yn parhau i gael ei ddefnyddio fel safle ar gyfer hamdden cymunedol tra ar yr un pryd yn gadael i ofod gwyrdd dyfu a ffynnu yn ystod y tymor tyfu.**
- **Codi deunydd dehongli ar y safle i hysbysu’r cyhoedd am nodau ac amcanion y prosiect a’u hannog i gerdded trwy’r ddôl laswelltrog ar y llwybrau pwrpasol a dorrwyd trwy’r safle.**

Yn ogystal, plannwyd dros 200 o goed cynhenid ar y safle mewn cydweithrediad ag ysgolion cynradd lleol ac ar ddiwedd y tymor tyfu, mae’r cae yn cael ei gynaeafu mewn modd traddodiadol, gyda’r deunydd wedi’i dorri’n cael ei fyrnu a’i symud o’r safle.

Drwy weithredu newidiadau cynnil iawn, ond cadarnhaol, i sut y rheolwyd y gofod gwyrdd cyhoeddus hwn ‘er mwyn natur’ ni chafodd y Cyngor Tref unrhyw adborth negyddol gan y cyhoedd i’r rhaglen newydd o gynnal a chadw’r tir.. Mae’r prosiect hwn yn dangos sut y gellir sefydlu a chynnal cynefin newydd i bawb mewn ardal drefol ac wrth ymyl un o brif ffordd prysuraf Gwynedd.

Mae Partneriaeth Natur Gwynedd yn rhagweld y bydd cae chwarae Bodawen yn parhau i gael ei gynnal er budd natur a hamdden yn y dyfodol, gyda dôl draddodiadol yn dod â bioamrywiaeth hyd at ffin prif ffordd yr A487.



ASTUDIAETH ACHOS 3



FFRINDIAU
AHNE LLŶN

Sefydlwyd grŵp gwirfoddolwyr AHNE Llŷn yn ôl yn 2021 ac fe'i henwyd yn 'Ffrindiau'r AHNE'. Mae'n rhoi cyfle i wirfoddolwyr gynorthwyo gyda gwaith ymarferol yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn. Bob blwyddyn, mae gwirfoddolwyr yn treulio oriau lawer o'u hamser yn torri llystyfiant, cynnal a chadw ac ailagor llwybrau a glanhau traethau.

Fel arfer, cynhelir y gweithgareddau ar ddydd Gwener dan arweiniad swyddogion yr AHNE gan gydweithio â gwirfoddolwyr lleol i gynnal a gwella nodweddion a chynefinoedd unigryw'r AHNE.

Un o'r prif weithgareddau a gyflawnir gan y grŵp yw cynnal a chadw llwybrau, gan weithio ochr yn ochr â swyddogion Hawliau Tramwy Gwynedd. Mae gweithgaredd diweddar a gynhaliwyd gan y Ffrindiau hefyd wedi bod yn un o'u heriau mwyaf, sef ailsefydlu llwybr troed rhwng Gyrn Goch a Threfor ar arfordir gogleddol yr AHNE.

Roedd y llwybr wedi bod ar gau ers dros 10 mlynedd ac nid oedd yn bosibl ei gerdded mwyach oherwydd twf llystyfiant trwchus. Roedd cau'r llwybr wedi gorfodi cerddwyr i wyro i rywle arall ac, wrth wneud hynny, roedd wedi creu dau neu fwy o 'lwybrau newydd' gan arwain at erydiad darn sylweddol o gynefin arfordirol gwerthfawr ac effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth leol.



Roedd y llwybr hwn yn bwysig am sawl rheswm – roedd yn arwain cerddwyr at dir mynediad agored, ac mae'r llwybr hefyd yn rhan o lwybr troed Llwybr Pererinion Llŷn sy'n cysylltu Bangor ag Aberdaron ac yna Ynys Enlli. Yn y pen draw, y nod hirdymor yw y gellir integreiddio'r llwybr hwn i Lwybr Arfordir Cymru, gan ei fod yn cynnig golygfeydd llawer gwell na'r rhai ar lwybr presennol y Llwybr Arfordirol ar hyd y briffordd brysur.

Mae 'Ffrindiau'r AHNE' wedi ailagor neu wella llawer o lwybrau Llŷn ers i'r grŵp gael ei greu. Wrth wneud hynny, mae gan gymunedau lleol a'r cyhoedd sy'n ymweld fynediad gwell i'r AHNE ac maen nhw'n gwerthfawrogi'r dirwedd gyferbyniol a chynefinoedd unigryw y rhan hon o Wynedd.

Gweithgaredd arall y mae'r gwirfoddolwyr yn ei wneud yn rheolaidd yw clirio sbwriel o draethau Llŷn, yn enwedig plastig caled. Mae Porth Neigwl yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn Ardal Cadwraeth Forol Arbennig ond hefyd yn draeth sydd ag enw am gronni plastig yn ystod stormydd



y gaeaf. Gyda chefnogaeth Uned Forwrol yr Awdurdod Lleol, mae Ffrindiau'r AHNE wedi cyfrannu llawer o ddyddiau, gan wirfoddoli eu hamser yn casglu sbwriel. Heb ymdrech y gwirfoddolwyr gwerthfawr hyn, mae'n eithaf posibl y byddai plastig a deunydd gwastraff gweddilliol arall yn cael ei olchi i'r lan ar ein glannau ac yn cylchredeg yn ein moroedd am ddegawdau i ddod... a thrwy wneud hynny yn peryglu cynefin morwrol amrywiol ond bregus AHNE Llŷn ac ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.

Mae gwirfoddoli gyda 'Ffrindiau'r AHNE' yn ffordd arall i bobl brofi a gwerthfawrogi cynefinoedd a cefn gwlad gan fwynhau manteision bod yn yr awyr agored wrth ddysgu medrau newydd a gwneud ffrindiau newydd ar yr un pryd.



ASTUDIAETH ACHOS 4



DOLYDD LLŶN

Dechreuodd ‘Dolydd Llŷn’ yn 2018 fel rhwydwaith anffurfiol o dirfeddianwyr a oedd am reoli eu tir ar gyfer bywyd gwyllt. Mae’r pwyslais wedi bod ar ardaloedd o laswelltir heb unrhyw faint gofynnol. Gall yr ardaloedd cymharol fach hyn o gynefin gynorthwyo a darparu cerrig camu i fywyd gwyllt ledled y dirwedd.

Ffocws gweithgareddau ‘Dolydd Llŷn’ fu darparu cyngor rheoli tir trwy gysylltu gyda’r unigolion a’r sefydliadau hynny sydd am ddeall mwy a rhannu gwybodaeth am ddolydd a bywyd gwyllt.




Mae Caeau Tan y Bwlch yn safle sy’n eiddo i’r elusen cadwraeth blodau gwyllt Plantlife. Saif ar ochr bryn uwchben Clynog Fawr ac mae’n cael ei reoli gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Dyma’r ‘Ddôl Goroni’ agosaf i’r rhan fwyaf o dirfeddianwyr ar Llŷn. Rhoddir y teitl ‘Dôl Goroni’ i enghreifftiau rhagorol o ddolydd sy’n weddill ledled gwledydd Prydain ac fe’u defnyddir fel dolydd rhoddi i gyflenwi hadau ar gyfer dolydd derbyn.

Defnyddiwyd Caeau Tan y Bwlch yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddarparu hadau ar gyfer prosiectau eraill fel y cynllun adfer priffyrdd yng ngogledd Cymru. Trwy rwydwaith ‘Dolydd Llŷn’, mae ffynonellau eraill o hadau sy’n llawn rhywogaethau wedi’u nodi. Mae’r ‘safleoedd rhoddi’ hyn yn darparu gwair gwyrdd a hadau wedi’u cynaeafu â brws i ddiwallu gofynion prosiectau adfer glaswelltiroedd yn lleol.

Wrth i fwy o dirfeddianwyr gysylltu â rhwydwaith ‘Dolydd Llŷn’, mae mwy o safleoedd rhoddwyr posibl wedi’u nodi, gan gynyddu’r adnoddau ar gyfer darparu hadau naturiol lleol. Mae hyn mwy neu lai wedi creu rhwydwaith hadau naturiol lleol. Yn y dyfodol, byddai PNG hefyd yn ystyried y rhwydwaith presennol hwn i ddarparu adnoddau ar gyfer cyrchu coed brodorol.


Mae diddordeb yng Ngwynedd mewn adfer glaswelltiroedd cyfoethog o ran rhywogaethau yn cynyddu, ac yn amrywio o dirfeddianwyr preifat sy’n berchen ar gaeau sengl neu luosog, yr awdurdod lleol sy’n rheoli ymylon ffyrdd a mannau gwyrdd



cyhoeddus eraill, rheolaeth mynwentydd, creu cynefinoedd amgylcheddol newydd o fewn libart ein hysgolion neu unigolion sydd â diddordeb ac sydd eisiau cael dolydd blodau gwyllt bach yn eu gerddi.

Mae rhaglen Dolydd Llŷn hefyd wedi gweithio ar y cyd â thirfeddianwyr lleol i ddatblygu prosiectau ar raddfa ffermydd megis parhau i weithredu’r treialon “talw am ganlyniad” ar ffermydd yn Llŷn.

Mae’r map isod yn tynnu sylw at leoliadau dolydd rhoddi a derbynwyr a hwylusir ac a gefnogir trwy gyfrwng rhwydwaith ‘Dolydd Llŷn’.





EIN RHANDDEILIAID A GRYMUSO CYMUNEDAU

Rhaid i aelodaeth Partneriaeth Natur Leol Gwynedd adlewyrchu ac annog y gynulleidfa ehangaf bosibl i ymgysylltu â'r allbynnau a nodir yn y CGAN ar gyfer Cymru a Gwynedd. Bydd CGAN Gwynedd yn parhau i rymuso a chefnogi pob rhanddeiliad i chwarae rhan weithredol a chanolog wrth wrthweithio'r bygythiadau a achosir gan newid hinsawdd a'r argyfwng natur yn ein cymunedau.

Mae llawer o'r gwaith pwysig hwn eisoes wedi'i wneud gan wirfoddolwyr gwerthfawr ac rydym yn dibynnu ar eu hewyllys da, eu hymrwymiad a'u cyfranogiad yn natblygiad a chynnal prosiectau amgylcheddol. Fodd bynnag, ymddengys bod disgwyliad cynyddol o'r hyn y gellir ei gyflawni ar lawr gwlad gan wirfoddolwyr. Bydd cefnogi gwirfoddolwyr yn iawn, darparu ar gyfer eu hanghenion amrywiol (yn aml trwy sefydliadau anllywodraethol ac elusennau) a'r lefel o brofiad sydd ei hangen yn cael eu hystyried yn ofalus, gan sicrhau y gall cymunedau Gwynedd barhau i chwarae rhan weithredol yn y gwaith pwysig hwn a phwysleisio'r cysylltiadau rhwng ecosystemau iach cydnerth a lles pobl.

Ar ben hynny, gall hyn ysgogi ymdrechion i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth gyda fframweithiau bioamrywiaeth yn y dyfodol yn fwy trawsnewidiol a chydweithredol.

YMATEB I HERIAU

Mae'n bwysig ystyried sut y gall ein holl gamau gweithredu ddarparu manteision ar raddfa'r dirwedd a all olygu canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol i dirfeddianwyr, ffermwyr, cymunedau ac unigolion sy'n byw ac yn gweithio yng Ngwynedd.

Drwy gydweithio â rhanddeiliaid ac aelodau, gallwn gyflawni mwy dros fyd natur gyda llai o adnoddau. Gall addasu ein ffyrdd o weithio wneud yn fawr o enillion bioamrywiaeth a chreu mannau gwyrdd gwerthfawr yn ein cymunedau gwledig a threfol.

BYDD CGAN GWYNEDD YN:

- Hyrwyddo cyfathrebu effeithiol, gan gydnabod yr heriau o gyfleu materion bioamrywiaeth a natur i ystod o bobl, a'r amser a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i wneud hyn.
- Datblygu cynlluniau cyfathrebu clir sy'n defnyddio llwyfannau cyfryngau traddodiadol a digidol i sicrhau ein bod yn cyrraedd pob aelod o'r gymuned, gan wneud yr amgylchedd yn berthnasol i bawb.
- Cydnabod bod angen i rhanddeiliaid a phartneriaid PNG allu cael mynediad at yr holl ddata a thystiolaeth berthnasol am fioamrywiaeth i'w defnyddio ar brosiectau lleol. Mae llawer o wybodaeth ar gael, ond mae angen ei chasglu at ei gilydd ar raddfa briodol er mwyn iddi fod ar gael i bawb.
- Hyrwyddo amcanion y cynllun hwn, gan wybod y bydd angen ymdrech gydlynol gan bawb dan sylw i nodi, datblygu, cyflawni a monitro prosiectau yn y tymor byr, canolig a hir. Er enghraifft, bydd cynnal ac ehangu cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt presennol yn ein cymunedau yn gofyn am ymrwymiad gan bawb dan sylw, gan gymryd cyfrifoldeb am eu "milltir sgŵar" i geisio gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Hyrwyddo cysylltu gweithgareddau lleol â phrosiectau ar raddfa tirwedd, gan ddod â phobl a chymunedau ynghyd i gyflymu'r broses o ddysgu a chyflawni allbynnau a datblygu gwell dealltwriaeth o'r berthynas angenrheidiol rhwng ecosystemau iach a chydnerth a lles pobl.

YMATEB I GYFLEOEDD



Mae ffocws blaenorol a hanesyddol ar safleoedd gwarchodedig o bosibl wedi caniatáu colledion sylweddol o fioamrywiaeth y tu allan i'r rhwydwaith o safleoedd dynodedig. Rhaid ystyried y rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig y tu allan i'r rhwydwaith cenedlaethol o gynefinoedd fel rhan annatod o lwyddiant unrhyw adferiad natur yng Ngwynedd yn y dyfodol.

Gall partneriaid o fewn Partneriaeth Natur Gwynedd a rhanddeiliaid eraill gyfrannu at hyn trwy reoli eu safleoedd eu hunain, sydd yn aml heb eu dynodi, a thrwy ymgysylltu â grwpiau rhwydwaith fel grŵp 'Dolydd Llŷn'.

Bydd Partneriaeth Natur Gwynedd yn ymdrechu i weithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr a ffermwyr i greu rhwydweithiau a chynefinoedd cysylltiol newydd a gwella rhwydweithiau a chynefinoedd presennol. Gan weithio mewn partneriaeth â'r undebau amaethyddol yng Nghymru, ffermwyr a thirfeddianwyr, mae gan amaethyddiaeth y potensial mwyaf i greu rhwydweithiau cydnerth o fewn tirwedd Gwynedd. Fodd bynnag, dim ond gydag arweiniad clir trwy bolisiau cenedlaethol a chymhellion trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol newydd sy'n ymateb i heriau cyfredol y bydd hyn yn hyfyw.

Mae rhai partneriaid PNG yn rheoli ardaloedd mawr o dir a/neu mae ganddyn nhw swyddogaethau ehangach. Bydd y bartneriaeth yn darparu cyfleoedd i bartneriaid gydweithio i rannu profiad ac arbenigedd, yn enwedig lle mae gan y cyhoedd fynediad at dir preifat drwy gyfrwng y rhwydwaith hawliau tramwy helaeth yng Ngwynedd.

Gallwn hefyd ymdrechu i ddatblygu perthynas gwaith cryfach gyda phartneriaid newydd fel Dŵr Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru, a Network Rail i annog cyfleoedd cyd-gynhyrchu gwell rhwng y sefydliadau statudol a rhanddeiliaid lleol.

Bydd angen i aelodau'r bartneriaeth barhau i gyfrannu tystiolaeth i amlygu manteision rheoli cynefinoedd yn weithredol, megis amlygu sut y gall cadwraeth mawnogydd effeithiol helpu i liniaru newid hinsawdd, storio dŵr a helpu'r cynefinoedd a'r rhywogaethau cysylltiedig.

Drwy gydweithio, bydd partneriaid yn nodi amrywiol 'atebion sy'n seiliedig ar natur' ac sy'n cynnig buddion lluosog megis darparu amddiffynfa rhag llifogydd lleol a datblygu cydnerthedd ecosystemau ar yr un pryd. Gellid cyflawni'r rhain drwy weithio ar y canlynol:

- Rhywogaethau penodol, cynefinoedd neu weithio ar raddfa tirwedd.
- Gall rheoli'r strbyn arfordirol yn effeithiol ddod â manteision i'r amgylchedd daearol a morol.
- Gall datblygu cysylltedd gwell rhwng cynefinoedd ar hyd Llwybr Arfordir Cymru ddod â buddion i natur, ffermio a thwristiaeth, gyda buddion iechyd a lles i bawb.
- Cydnabod y cyfleoedd i efelychu a rhannu arfer gorau gyda rhanbarthau arfordirol eraill ledled Cymru.
- Rheolaeth gydlynol ofalus o'r ucheldiroedd sy'n cynnal ac yn gwella cynefinoedd gwerthfawr fel mawnogydd, rhostiroedd a ffridd a all gyflawni buddion amgylcheddol a bioamrywiaeth lluosog.
- Cymunedau a thirfeddianwyr i gyd-gynhyrchu i gyflawni prosiectau gyda phwyslais ar ddod â buddion amgylcheddol ac economaidd uniongyrchol mewn materion fel lliniaru llifogydd a storio carbon o fewn dalgylchoedd afonydd.

O fewn AHNE Llŷn bydd ffocws ar wella cyflwr rhai o nodweddion a chynefinoedd pwysicaf yr ardal, gan gynnwys:

- Cynnal ffiniau clawdd traddodiadol.
- Dileu rhywogaethau ymledol.
- Gwelliannau i dir comin a dolydd gwair.
- Cynnig hyfforddiant a theithiau cerdded tywys i annog pobl i ddatblygu medrau newydd a chael dealltwriaeth ddyfnach o'r dirwedd unigryw hon.

Hyrwyddir y gwaith drwy gyfrwng cylchlythyr 'Llygad Llŷn' a sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Mae PNG felly mewn sefyllfa dda i edrych ar ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth ar raddfa fawr, gan gysylltu safleoedd gwarchodedig â safleoedd/cynefinoedd eraill yn ein tirwedd, tra'n dylanwadu ar weithredu, gosod blaenoriaethau, rhannu gwybodaeth a datblygu prosiectau gyda rhanddeiliaid ar yr un pryd i gyflawni amcanion a nodir yn y CGAN hwn.

Bydd ein cynllun lleol, oherwydd y ffordd y mae wedi'i strwythuro, yn gallu cefnogi gwneud penderfyniadau ar lefel ranbarthol ac felly bydd yn llawer mwy ymatebol i wybodaeth newydd neu newid mewn deddfwriaeth, polisi neu ddata ymchwil newydd.


CYMRYD CAMAU I GEFNOGI ADFERIAD NATUR YNG NGWYNEDD – EIN NODAU LLEOL

Mae Partneriaeth Natur Gwynedd yn ymwybodol o chwe prif amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol. Mae'r datganiadau canlynol yn seiliedig ar ganlyniadau gweithdy partneriaeth ac ymgynghoriad dilynol a byddan nhw'n cael eu defnyddio a'u haddasu pan fo angen i lywio camau adfer natur yn lleol.

Rhagwelir y gellir ac y bydd y datganiadau hyn yn cael eu haddasu i gydymffurfio ag amgylchiadau a deddfwriaeth amgylcheddol gyfredol yn y dyfodol.

Dylid nodi bod y datganiadau canlynol yn cyfeirio at swyddogaethau'r Bartneriaeth gyfan a bod gan y cyrff cyhoeddus unigol o fewn y bartneriaeth ddyletswydd o dan Adran 6 o 'Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016/2026' i ystyried eu heffaith ar fioamrywiaeth a ddylai eu harwain pan fyddan nhw'n cyflawni eu holl swyddogaethau statudol.

Bydd y nodau canlynol yn cael eu defnyddio i ddatblygu camau gweithredu yn lleol.





NÔD 1

DIOGELU, ADFER A RHEOLI ECOSYSTEMAU'N EFFEITHIOL ER MWYN ADEILADU EU CYDNERTHEDD

Mae ecosystemau bioamrywiol sy'n gydnerth i bwysau a achosir gan weithgarwch dynol yn darparu'r gwasanaethau sy'n sail i'n hiechyd a'n ffyniant.

Yng Ngwynedd, mae llawer o'n tirwedd wedi newid dros amser, gan adael yr amgylchedd a'r cynefinoedd sy'n weddill rywfaint yn wan yn eu gallu a'u cydnerthedd i addasu i newid hinsawdd, llygredd a phwysau dynol eraill.

Drwy weithredu i ddiogelu'r cynefinoedd pwysig hyn sy'n weddill, adfer ardaloedd diraddedig a gwella cysylltedd cynefinoedd, bydd PNG yn ceisio atal colli bioamrywiaeth a sicrhau bod ein hecosystemau gwerthfawr yn parhau i gefnogi ein bioamrywiaeth a'n llesiant.



NÔD 2

DIOGELU RHYWOGAETHAU A CHREU LLE I RYWOGAETHAU FFYNNU

I lawer o bartneriaid PNG, mae diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwys mawr ac mae gwella eu rheolaeth yn rhan sylfaenol o'u pwrpas. I sefydliadau eraill, gellir cyflawni'r amcanion hyn hefyd drwy eu cyfrifoldebau statudol.

Mae'r Bartneriaeth yn ystyried y gellid cyflawni'r amcanion hyn pan fydd gwybodaeth glir yn nodi beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar rywogaethau a chynefinoedd yng Ngwynedd. Mae'n hanfodol bod gwybodaeth o ansawdd da yn cael ei defnyddio i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a'u rôl wrth adeiladu rhwydweithiau ecolegol cydnerth yn lleol ac ar raddfa tirwedd, gan gysylltu ardaloedd trefol a gwledig, er mwyn darparu manteision i'r amgylchedd a phobl Gwynedd.

I gael rhagor o wybodaeth am statws cadwraeth cynefinoedd a rheoli rhywogaethau yng Ngwynedd, dylai partneriaid gyfeirio at Ddatganiadau Ardal Gogledd Orllewin Cymru CNC i gael rhagor o wybodaeth a chynghor manwl.




NÔD 3

MYND I'R AFAEL Â'R PRIF BWYSAU AR RYWOGAETHAU, CYNEFINOEDD AC ECOSYSTEMAU

Mae llawer o bartneriaid PNG wedi ceisio/neu'n parhau i geisio adnabod cyfleon i wella gwydnwch ecosystemau o fewn amgylchedd naturiol Gwynedd drwy eu gwaith, naill ai drwy reolaeth uniongyrchol, creu prosiectau neu adnabod cyfleon drwy waith arolygu, casglu data, codi ymwybyddiaeth a gwneud penderfyniadau.

Mae'r Bartneriaeth yn ystyried y gellid cyflawni'r amcan hwn yn well yng Ngwynedd ac AHNE Llŷn drwy sicrhau bod dealltwriaeth wirioneddol a chadarn ymhlith tirfeddianwyr a phobl sy'n penderfynu sut y gellir datblygu, cynnal, gwella ac ymestyn ecosystemau cydnerth. Hyd yn hyn, mae'r Bartneriaeth wedi cyflawni prosiectau gyda ffocws ar gynefinoedd cydnerth sydd wedi ei cysylltu drwy'r dirwedd mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae'r rhain yn cynnwys prosiect Gwarchodfa Natur Leol Wern Mynach yn Bermo lle mae gwirfoddolwyr wedi bod yn ymwneud â hyrwyddo rheolaeth glaswelltir trefol sy'n gyfeillgar i beillwyr a rhywogaethau eraill, a phrosiect Derw Ogwen a oedd yn canolbwyntio ar gofnodi coed hynafol a gwella coridor coetir hanesyddol sy'n gyfeillgar i natur drwy dirwedd ddiwydiannol Dyffryn Ogwen.

Bydd y bartneriaeth yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth o bob prosiect ac annog trigolion Gwynedd i ddefnyddio'r adnoddau naturiol hyn er lles eu hiechyd corfforol a meddyliol.



NÔD 4

SEFYDLU LLYWODRAETHIANT EFFEITHIOL A'R GALLU I GYFLAWN

Mae PNG yn credu bod y pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd o fewn ein tirwedd amrywiol bellach yn cael eu deall yn llawer gwell ac yn cael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfa llawer ehangach nag a feddylwyd yn flaenorol.

Mae'r prif ffactorau sy'n sbarduno newid yng Ngwynedd yn cynnwys datblygiadau adeiladu, rhai arferion rheoli tir, newid hinsawdd, llygredd, rhywogaethau estron ymledol a thwristiaeth. Mae pob partner yn delio â'r materion hyn mewn rhyw ffordd drwy eu gwaith, boed yn effeithiau ar gynefinoedd penodol neu gynefinoedd y maen nhw'n eu rheoli, eu monitro a'u cofnodi.

Mae PNG yn credu y gellir cyflawni'r amcan yma yng Ngwynedd drwy feithrin mwy o gydweithio rhwng partneriaid a chontractwyr a mabwysiadu 'atebion sy'n seiliedig ar natur' i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.



ADRODD AR EIN CYNNYDD

Er mwyn monitro cynnydd, bydd PNG a Thîm AHNE Llŷn yn llunio ac yn cyhoeddi diweddariad blynyddol a rhestr o brosiectau a gweithgareddau sy'n cyfrannu at gyflawni'r CGAN yng Ngwynedd ac AHNE Llŷn.

Bydd y diweddariadau blynyddol hyn yn cael eu cyhoeddi a byddan nhw ar gael ar y llwyfannau ar-lein canlynol:

Gwefan Cyngor Gwynedd

Tudalen Facebook Partneriaeth Natur Gwynedd

Gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

Gwefan CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)

NÔD 5

YMGORFFORI BIOAMRYWIAETH DRWY HYBU DIDDORDEB AC YMWBYYDDIAETH I GEFNOGI PENDERFYNIADAU EFFEITHIOL AR BOB LEFEL

Bydd y bartneriaeth yn ymdrechu i ddarparu CGAN ar gyfer Gwynedd sy'n adlewyrchu yr hyn sydd yn gwneud yr ardal yn unigryw ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a nodwyd yng Nghynllun Adfer Natur Cymru a Chynllun Ardal gogledd-orllewin Cymru.

Trwy weithio gyda chyrff statudol a'r awdurdodau perthnasol eraill, bydd aelodau PNG yn gallu ymgorffori blaenoriaethau sy'n hybu bioamrywiaeth yn y cymunedau lleol gan ddatblygu cyfalaf naturiol o fewn grwpiau a sefydliadau sy'n datblygu a gweithredu allbynnau amgylcheddol.

Drwy godi ymwybyddiaeth, meithrin hyder ac amlygu'r arfer da amgylcheddol sy'n cael ei gyflawni gan grwpiau cymunedol, bydd gweithredu lleol yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau natur a newid hinsawdd byd-eang.

NÔD 6

GWELLA EIN TYSTIOLAETH A'N GWAITH MONITRO

Mae PNG yn 'rwydwaith gwybodaeth' a 'hwb natur', gyda phrofiad helaeth ac eang, cysylltiadau, capasiti, parhad, a phwrpas cyffredin. Mae mewn sefyllfa gref i weithio gydag unigolion neu sefydliadau bach sy'n cyflawni prosiectau lleol, neu i gyflenwi gwybodaeth a chymryd rhan mewn prosiectau partneriaeth ar raddfa fawr o fewn ardal ddaearyddol ehangach.

Anogir pob corff sy'n aelod o'r bartneriaeth i gysylltu a chydweithio â'r LERC (COFNOD) i gasglu tystiolaeth, monitro rhywogaethau a chynefinoedd, ac hefyd i rannu dangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn cael eu defnyddio i gasglu data ar allbynnau a chanlyniadau pob prosiect sy'n cael eu gweithredu gan PNG, gall wedyn gael eu bwydo i gronfeydd data cenedlaethol.

